

# DINESYDD

PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH

RHIF 126

1986  
MEHEFIN

## FFARWELIO Â LESLIE EVANS



Llun: Islwyn Jenkins

AR Y SULGWYN ym 1887, gant namyn un o flynnyddoedd yn ôl, y cafwyd y cymun Cymraeg cyntaf ar gyfer yr addolwyr hynny o Gymry yn Eglwys Dewi Sant, neu'n hytrach yn Eglwys Andreas Sant, fel yr oedd pryd hwnnw. Ar y Sulgwyn ym 1986 dyma ddwyn i ben bennod arall yn hanes yr achos Cymraeg hwn yn ninas Caerdydd, oherwydd yng ngwasanaeth y cymun y bore hwnnw y dymunodd y Parchedig Leslie Evans ffarwello â'i aelodau.

Daeth atom ym mis Mawrth 1976 o Borth Tywyn yn esgobaeth Tyddewi ac yn awr, ddeng mlynedd yn ddiweddarach, y mae'n dychwelyd i ofalu am bliwyf Llan-llwch, Llan-gain a Llangynog yn yr un esgobaeth.

Ar y nos Sul flaenorol bu aelodau'r Ysgol Sul wrthi yn mynegi eu diolch i'r ficer a Mrs. Evans mewn darlleniadau a chaneuon a phenillion pwrpasol, a chyflwynwyd anrhegion iddynt gan ddau o'r disgyblion. Dewiswyd crys chwys coch gydag arwyddnod yr eglwys arno i'r ficer a gobethiwn glywed sôn ei fod yn

ei wisgo pan fo'n chwarae golff ar gyrsiau yr hen "shir Gâr"!

Yr oedd yr eglwys yn orlawn fore'r Sulgwyn ac ymhlith y rhai a oedd yn bresennol yr oedd yr Esgob Eric Roberts, cyn-Esgob Tyddewi, y Deon Gwlad, y Parchedig J. Buttmore, a'r Parchedig Bernard Johns, ficer y Rhath, y ddau olaf hyn yn cynrychioli eglwysy'r ddinas. Ar ran Cyngor Eglwysy Cymraeg Caerdydd yr oedd Vaughan Salisbury, yr ysgrifennydd, yn bresennol, a da oedd gweld nifer o weinidogion Cymraeg y ddinas wedi troi i mewn cyn diwedd y gwasanaeth.

Yn y cymun diolchwyd a thalwyd teyrnged i'r Parchedig Leslie Evans ar ran yr eglwys gan Richard Jones, darlennydd lleig, y Parchedig Vernon Davies, a fu'n cynorthwyo gyda'r gwasanaethau ar hyd y blynyddoedd a Vincent Phillips, warden yr aelodau. Yr oedd Cymdeithas Bore Dydd Mawrth eisoes wedi cyflwyno anrheg i Mrs. Jennie Evans a chyflwynwyd tysteb yr eglwys iddo ef a Mrs. Evans gan Tom Charles, warden y ficer.

Y mae'n perthyn i Eglwys Dewi Sant draddodiad o bregethu arbennig ac y mae'r Parchedig Leslie Evans wedi parhau'r traddodiad hwnnw. Tyst o hynny oedd ei bregeth ymadawol rymus fore'r Sulgwyn. Y mae iddo ei ddull nodweddiadol ei hun yn ei bregeth. Y mae'n hoffi cynnwys cyfeiriadau bach addysgiadol sydd yn egluro ein traddodiad eglwysig, a chan fod Suliau'r flwyddyn eglwysig yn rhai penodol rhydd hyn ddigon o gyfle iddo. Y mae'n hoff hefyd o gynnwys dyfyniadau o weithiau'r Cristnogion mawr hynny yn hanes y ffydd. Mae'r Fam Julian o Norwich yn ffeifryn ganddo ond hefyd cafwyd cyfeiriadau at Awstin Sant, Francois de Sales ac eraill.

Amlygir ei ddiddordeb pendant mewn llenyddiaeth Gymraeg yn y dyfyniadau hynny a gynhwysa yn y bregeth. Darn addas o un o gerddi Gwenallt neu bwt gan Waldo wedi'i wau i mewn i bwysleisio pwynt. Ac yr oedd yr un hoffter i'w weld yn y llythyr misol. Ar glawr hwnnw cynhwysai ddarn priodol helaeth o waith un o'n beirdd ar gyfer y mis dan sylw. Ac wrth gwrs doi pennill o emyn pwrpasol i'w gof yn aml wrth gloi pregeth.

Yn yr un modd mae ei benawdu myfyrio yn y cymun bob Sul yn torri rhyw gws newydd yn y meddwl wrth ganolbwyntio ar destun arbennig y Sul hwnnw. Dyry fri ar wasanaeth cymen ac urddasol. Efallai mai yn y cymun wyth fore Sul y gwelid hyn orau. Mae llefaru geiriau'r cymun yn raenus yn cyfrif iddo. Nid oes rhuthro i fod o gwbl a'r cyfan i arwain at naws o addoli aruchel.

Parhad ar dudalen 2

## Llongyfarchiadau

ROEDD MIS Mai yn fis hynod lwyddiannus i wneuthurwyr ffilmiau o Gymru. Am y tro cyntaf erioed dangoswyd ffilm Gymraeg yng Ngŵyl Ffilmiau Cannes ac ychydig ddyddiau'n ddiweddarach ennillodd ffilm arall a ddarlledwyd ar S4C wobwr yn Llundain.

Roedd "Rhosyn a Rhith", neu "Coming up Roses", fel yr adnabyddir y ffilm yn Saesneg, yn un o dri ffilm o Brydain a ddangoswyd yn yr Wyl Ffilmiau yn Cannes. Y ddau arall oedd "The Mission" gan David Puttnam a Roland Joffe a "Mona Lisa" gan Neil Jordan. Ond ar waetha'r ffaith iddo fod mewn cwmni o'r fath cafodd y ffilm Gymraeg dderbyn llaed brwdfrydig.



Daeth arbennigwyr y byd ffilm yn eu cannoedd i weld "Rhosyn a Rhith" ac mae'r ffilm wedi derbyn canmollaeth hael gan y wasg. Neilltuwyd tudalen gyfan o'r papur dyddiol Ffrengig Le Matin i'w adolygu.

Comisynwyd y ffilm gan S4C ac fe'i cyfarwyddwyd gan Steve Bayly, americanwr a ddaeth i amlygrwydd yn gyntaf yng Nghymru fel cyfarwyddwr y gyfres "Joni Jones". Yn dilyn difiantiad y cwmni cynhyrchu Sgrin '82 bu Bayly yn cynhyrchu trwy ei gwmi ei hun, Red Rooster Films, sydd â'i bencadlys yn Llundain.

Mae'r ffilm yn adrodd hanes cau sinema olaf Aberdar, ac ymdrechion dau o'r gweithwyr (Dafydd Hywel a Iola Gregory) i'w gadw ar agor. Y bwriad gwreiddiol oedd ei ddarlledu adeg y Nadolig, ond mae'n bosibl y bydd yn rhaid gohirio'r darllediad yn sgil cytundebau i ddsbarthu'r ffilm mewn gwledydd eraill.

Tra roedd "Rhosyn a Rhith" yn derbyn canmliaeth yn Cannes, ennillodd y ffilm "Gwenoliad" wobwr Cwmni Teledu Pye am y rhaglen rhanbarthol orau ym Mhrydain. Dangoswyd y ffilm, sy'n olrhain hanes efaciws o Lundain yn ymgartrefu ym mhentref Aberllefenni yn ystod y rhyfel, ar S4C dros y Pasg. Y bwriad nawr yw ei ddarlledu ar BBC2 gydag is-deltiau.

## TU MEWN

Cwmni Sain a Thy'r Cwmnïau .....	Tud. 3
Cyfeillion Nant Gwrtheyrn .....	Tud. 4
Dathlu yn Rhydychen .....	Tud. 5
A.I.D.S. yng Nghymru .....	Tud. 6
Cynlluniau Gŵyl Ifan '86 .....	Tud. 7

Mae agweddau eraill ar waith Leslie Evans yn yr eglwys y gellir cyfeirio atynt. Dyna gyfresi'r Garawys, a'r un a gafwyd efeni ar "Beth yn y Byd yw Pwrpas yr Eglwys?" yn llawn gwybodaeth a'r ficer ei hun yn llywio'r drafodaeth wedyn. Ni ddylem ni anghofio'r cychoedd trafod a ddechreuwyd gan ei ragflaenydd ac a barhaodd yntau. Cynhelid y rhain yn nhal'r aelodau mewn gwahanol ardaloedd o fewn y ddinas. Yng ngwasanaeth Gwener y Groglith y mae wedi parhau i roi aelwyd gartrefol i eglwysi Cymraeg Caerdydd. Bendith digamsyniol i bawb ohonom yw cael aelodau o'r eglwysi eraill yn cyd-fyfyrto a ni.

Ym myd ehangach y ddinas bu Leslie Evans yn weithgar hefyd. Parhaodd gysylltiad yr eglwys gyda'r Mudiad a'r Byddar ac yna bu'n un o gaplaniaid y carchar am gyfnod. Yn y cychoedd Cymraeg gallwn enwi Cyngor Eglwys Cymraeg Caerdydd, ac fe fu'n llywydd Cymdeithas y Cymrodorion, ac mae cymdeithasau eraill y bu'n gysylltiedig â hwy. Pan fu'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd fe fu'n ddiwyd yn cynorthwyo gyda'r trefniadau y pryd hynny.

Yn ystod y degawd hwn bu ei briod, Mrs. Jennie Evans, yn angor y gallai'r ficer ddiymnu arno bob amser. Yr oedd yn gymorth nid bychan amryw droeon pan oedd bagod gofalon y fugeiliaeth yn gwasgu arno ac fe ddaw adegau felly ar draws pob offeiriad. Yn ystod ei salwch tost y llynedd bu'n gadarn dwr y gallai bwyso arno. Y mae ganddi ddawn arbennig i drefnu blodau ac fe welid campwaith ei llaw'n benodol pan fyddai gwasanaeth arbennig yn yr eglwys.

I ddiweddu'r diolch fore'r Sulgwyn yr oedd Phillip Laugharne, organydd yr eglwys, wedi cyfansoddi emyn-dôn yn neilltuo ar gyfer yr achlysur. Enw'r dôn oedd "Fron Felin", sef enw hen gartref y Parchedig Leslie Evans yng Nghwm-bach ym mhilwyf Llanwinio. Cyflwynwyd copi o'r dôn i M. Evans gan W.T. Jenkins, un o aelodau hynaf y côr, a chanwyd emyn mawreddog Ann Griffiths "Dyma babell y cyfarfod" arni gan y côr.

Dymunwyd iddo ef a Mrs. Evans ar ran aelodau'r eglwys flynyddoedd lawer o hapusrwydd yn ardal Llan-llwch. Aynegwyd llawenydd o weld fod yr afiechyd a'i goddiwedddod y llynedd wedi'i drefnu a'r gobaiith y cai fwynhau nerth ac iechyd am flynyddoedd lawer i ddo. Gweddai daer yr eglwys yw y bydd iddo ffyniant yn ei genhadaeth yn Llan-llwch, Llan-gain a Llangynog a chyflawn nerth Ysbryd Duw yn yr ofalaeth newydd.

Wedi'r gwasanaeth cafwyd lluniaeth i bawb yn y neuadd wedi'i baratol gan nifer o wragedd yr eglwys dan ofal Mrs. Sali Thomas a chafodd y Parchedig a Mrs. Leslie Evans gyfle i fwynhau cwmni eu cyfeillion a chanu'n iach iddynt.  
Vincent Phillips.

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at rifyn Gorffennaf/Awst at: Shân Emllyn, 3 Llandennis Avenue, Cyncoed, Caerdydd, CF5 6JD erbyn Mehefin 19.

Diolch am gymorth Cymdeithas Celfyddydau De Ddwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig wrth baratol'r Dinesydd.

**I LLUNDAIN:**

Dymunwn yn dda i Eiddwen Glyn sy'n gadael Caerdydd am chwe mis. Mae'n mynd i Ysbyty'r Royal Free yn Llundain i ymestyn ei gwybodaeth a'i phrofiad yn Adran Clefydau'r Arennau. Edrychwn ymlaen at ei chroesawu'n ôl i Gaerdydd.  
2

# Y CALENDR

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at Galendr y Dinesydd at: Lynn Jones, 30 Highfields, Llandaf, CF5 2QB. Ffon: 562816.

**MEHEFIN**

- 4 - Theatr Chapter  
John Pilger - y newyddiadurwr a wnaeth enw iddo'i hun yn sgil ei ymgyrchu a'i adroddiadau teledu ynghylch rhai o brif ddigwyddiadau'r ganrif yn siarad am ei lyfr newydd "Heroes".
- 6 - Cymrodorion Caerdydd  
Festri Tabernacl 7.15  
Cyfarfod Cyffredinol
- 6 - Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
- 6 - C.N.D. Caerdydd  
Theatr Chapter  
Noson o adloniant - elw i C.N.D.
- 6 - Clwb Ifor Bach  
Maffia Mr.Huws
- 7 - Clwb Ifor Bach  
Derec Brown a'r Racaracwyr
- 11 - Clwb Ifor Bach  
Noson Beirdd & Steve Eaves
- 14 - Clwb Ifor Bach  
Meic Stephens
- 17 - 25 Gŵyl Llandaf  
Tocynnau ar gael o Slop yr Eglwys Gadeiriol, Llandaf; Cranes, 40 Town Wall, Canolfan Dewi Sant; Town & Country, 6 Stryd Fawr, Llandaf neu dros y ffon ar Gaerdydd 20859.
- 18 - Gŵyl Llandaf  
Eglwys Sant Ioan 1.10pm  
Dr Meredydd Evans - "Teuan Ddu, Eisteddfodwr a Cherddor"
- 20 - Gŵyl Llandaf  
Ysgol Howells 7.30  
Ar Log
- 21 - Cynhadledd Undydd  
"Iaith a Gwylwyr S4C"  
Coleg y Brifysgol, Caerdydd  
Manylion pellach: 372409
- 21 - Cyngor Celfyddydau Cymru  
Gweithdy i awduron sy'n dymuno ysgrifennu ar gyfer plant.  
Am fanylion pellach cysllwch a:  
Nan Griffiths: 394711
- 21 - Urdd Gobaith Cymru  
Nofio Nawdd Blynnyddol  
Canolfan Chwaraeon Cymru  
6.00 - 8.00  
Croeso i Bawb.
- 22 - Gŵyl Llandaf  
Ysgol Howells 8.00  
Osian Ellis
- 23 - Gŵyl Llandaf  
Eglwys Sant Ioan, 1.10pm  
Gwyl Erfyl - "Ambell Dro"
- 24 - Gŵyl Llandaf  
Eglwys Sant Ioan, 1.10pm  
Yr Athro Gwyn A. Williams  
- "Iolo Morgannwg".
- 25 - Cylch Clinio Cymraeg y Barri a'r Fro  
Siaradwr: Dafydd Islwyn

26 - Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf  
Ffair Haf

26 - Ebeneser, Heol Siarl 7.30  
Jim Wallis: "Cwestiynau heddwch sy'n wynebu'r Cristion heddiw".

27 - Ebeneser, Heol Siarl  
2.00 Seminar i arweinydd eglwysig, gweinidogion lleol, cyrff cenhadol, a mudiadau cysylltiedig.  
7.30 Dathliad gyda grwpiau lleol ac anerchiad gan Jim Wallis.  
Manylion pellach gan Geraint Tudur (0222) 490582

28 - Clwb Ifor Bach  
Y Brodyr



**YR AMGUEDDFA GENEDLAETHOL**

Y Prif Adeilad, Parc Cathays  
Darluniau i Ysgolion 5 - 29 Mehefin  
Ar wahan i ychydig fylchau, cynhaliwyd yr arddangosfa hon yn flynyddol ers 1951. Nid yw'r nod wedi newid dim - sef gwerthu gweithiau celf i awdurdodau addysg, colegau ac ysgolion. Erbyn hyn y mae prynwyr preifat yn llawer mwy amlwg nag oeddynt ar ddechrau'r fenter. Yn wahanol i'r hyn a awgrymir yn y teitl, nid oes unrhyw ddarpariaeth arbennig ar gyfer plant oddieithr arddangos detholiad o waith o safon.

Tŷ Turner, Heol Plymouth, Penarth  
Yn parhau ar hyn o bryd mae arddangosfa gwaith Claudia Williams a Gwilym Pritchard fel yr adroddwyd yn rhifyn Mai o'r Dinesydd. Fe'i dilynir gan:  
Celf Cyfoes Newydd

13 Mehefin - 27 Gorffennaf  
Arddangosfa o'r gweithiau celf modern a ychwanegwyd at gasgliad yr Amgueddfa. Yn eu plith mae gweithiau gan Stephen Farthing, Roy Abell, Stephen Buckley ac Ota Janecek. Cynrychiolir gweithiau Cymreig gan Muller Cantata (1960) gan David Jones, a Nightwatch (1984) gan Terry Setch.

Oriel, Heol Siarl  
24 Mai - 21 Mehefin  
Newid lleoedd, arddangosfa o weithiau Robert Hunter ac Adrian Davies.  
Ganed Robert Hunter yn Lerpwl ym 1920; symudodd i Gymru ym 1952 a dod yn Brif Ddarlithydd a Phennaeth yr Adran Gelf, Coleg y Drindod, Caerfyrddin yn yr un flwyddyn. Er iddo ymdeol o'i swydd ym 1983 mae'n dal i fyw a gweithio yng Nghaerfyrddin.  
Mae Adrain Davies, s'y'n enedigol o Dreforus, yn Ddarlithydd Uwch mewn dylunio yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin. Mae'n byw a darlunio yn Llanarthne, ger Caerfyrddin.

**CROESO:**

Mae S4C yn croesawu tri aelod newydd i'r staff - Stephen Beynon-Jones o Abertawe, Dirprwy Bennaeth yr Adran Gyllid; Dylan Huw Jones o Fon, Peiriannydd Shift; Kaye Canavan o Benybont, Clerc Cyllid. Tra'n croesawu'r tri uchod mae S4C hefyd yn ffarfello a Wendy Rees sy'n dychwelyd i'r Gogledd i weinyddu "Cyfle" - y corff a sefydlwyd i hyfforddi technegwyr Cymraeg eu hiaith.  
Llongyfarchiadau hefyd i Kathryn Griffiths ar ei phriodas â Mike Morris yn Noc Penfro ar Fai 17.



# SAIN v TŶ'R CWMNIAU

GWYR Y sawl a welodd y rhifyn diwethaf ein bod wedi disgwyl cyhoeddi erthygl gan un o gyfarwyddwyr Cwmni Sain yn eguro'r anghytundeb rhwng y cwmni a Thy'r Cwmniau yn y Maendy. Oherwydd anghydfod y Post ni chyrrhaeddodd yr erthygl tan wedi i'r Dinesydd fynd i'w wely, ond pleser y mis hwn yw cyhoeddi sylwadau Dafydd Iwan.

ERS DENG mlynedd, bu Cwmni Sain (Recordiau) Cyf. mewn ffrwgwd gyda Thy'r Cwmniau yng Nghaerdydd am fod ein cyfrifon blynyddol, ac adroddiadau'r cwmni i'r cyfarwyddwyr, yn Gymraeg.

Fel y gwyddoch, prif bwrpas Thy'r Cwmniau yw cadw trefn ar ryw filiwn o gwmniau yng ngwledydd Prydain sydd a "chyfrifoldeb cyfyngedig" i'r cyhoedd. Hynny yw, fel tal am y fraint honno mae cyfrifon y cwmniau hyn yn gorfod bod ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd yn Nhy'r Cwmniau.

Os ydych chi am gael gwybod pwy yw cyfarwyddwyr y cwmni a'r cwmni, faint o gyfran plau pob un, a faint o elw neu golled a wnaed y llynedd, neu faint o ffloedd a dalwyd i'r cyfarwyddwyr - yna ewch draw i Dy'r Cwmniau ac fe gewch y wybodaeth heb fawr o drafferth. Gwneir y defnydd mwyaf o'r gwasanaeth hwn gan gwmniau neu fusnesau eraill sy'n dymuno gwneud busnes gyda'r cwmni yr edrychir i'w bac, a chan y Wasg pan fydd rhyw gwmni neu'i gilydd (neu'r cyfarwyddwyr) "yn y newyddion".

Fel rheol, os nad oes cyfrifon blynyddol ar gyfer enw cwmni, mae'n arwydd sicr bod y cwmni mewn anrhefn llwyr ac ar fin mynd i'r wal, oni wnaeth hynny eisoes. Wedi rhai blynyddoedd o dorri'r gyfraith trwy beidio anfon cyfrifon ac adroddiadau i Dy'r Cwmniau, gellir diddymu'r cwmni oddi ar y cofrestr a gwahardd y cyfarwyddwyr rhag bod yn gyfarwyddwyr unrhyw gwmni arall.

Dyma'r hyn y bygythiwyd Sain ag ef rai wythnosau'n ol - gan achosi mwy o embaras i Dy'r Cwmniau nag i neb arall. Oherwydd gwyr Thy'r Cwmniau yn dda fod Sain yn paratoi adroddiadau blynyddol yn rheolaidd, ond bod y gyfraith fel y mae yn eu rhwystru rhag derbyn adroddiadau yn Gymraeg heb gyfleithiad Saesneg.

Dadl Sain yw mai Cymraeg yw iaith weinyddol y cwmni yn fewnol, ac yn Gymraeg y darperir yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol i'r cyfarwyddwyr, ac felly mai yn y ffurf honno yr anfonir nhw i Gaerdydd. Os yw "dilysrwydd cyfartal" neu "statws swyddogol" yn golygu unrhywbeth, dylai olygu y gall cwmni - neu unigolyn - fod yn rhydd i weithredu yn y Gymraeg yn unig neu yn Saesneg yn unig yng Nghymru. Ac os gweithredu yn y Gymraeg, dylai'r gyfundrefn swyddogol fedru delio a hynny yn rhydd a di-drafferth. Yn yr achos arbennig yma, cyfrifoldeb Thy'r Cwmniau fyddai darparu cyfiethiad i'r Saesneg o gyfrifon Sain ar gyfer y cyhoedd di-Gymraeg. (Ac o ran hynny, yr yr un cyfrifoldeb ddylai fod arny'n nhw i ddarparu cyfiethiad Cymraeg o adroddiadau a chyfrifon a ddanfonwyd i

mewn yn uniaith Saesneg).

Mae lle cryf i gredu y byddai Thy'r Cwmniau yn awr yn croesawu newid yn y Ddeddf Gwmniau a fyddai'n eu galluogi i dderbyn cyfrifon uniaith Gymraeg. Oherwydd nid Sain yn unig sy'n pwysu am hyn, ac yn dilyn y cyhoeddusrwydd a gafodd yr achos, bydd mwy fyth o bwysau gan gwmniau ac unigolion yn awr am gael newid y ddeddf. Mae'r bel yn dwt yng nghwrt y gwleidyddion, ac unwaith eto tanlinellwyd yr angen am Ddeddf Iaith newydd a fydd yn rhoi i'r person Cymraeg yng Nghymru yr un hawliau cynhenid a'r person di-Gymraeg. Nid ydim yn gofyn am ddim mwy na hynny - ond yn sicr ni ddylem fodloni ar ddim llai.



## COFIO MANSEL

CAFWYD NOSON gofiadwy iawn yn Neuadd Dewi Sant nos Sadwrn Mai 17. Noddwyd Cyngerdd Teyrnged i'r diweddar Mansel Thomas gan Welsh Brewers, Cymeryd rhan gan Gor Meibion De Cymru, Cantorion Ardwyn, a'r unawdwyr oedd John Eifed Phillips a Leah Marian Jones.

Un o uchafbwyntiau'r noson oedd datganiad Janette Massochi a Geoffrey Buckley o drefniadau cerddorfaol i ddau biano gan Mansel Thomas. Llwyddodd y ddau i roi disgleirdeb a newydd-deb i rai o'n halawon gwerin. Cyfeilliwyd ar yr organ gan fab yng nghyfraith y cyfansoddwr. Roedd teulu'r cyfansoddwr yn bresennol ac yn sicr roedd yn achlysur emosynol iawn iddynt.

Fy hun, fe hoffwn fod wedi clywed un o gampweithiau Mansel Thomas, sef "Caneuon Grace a Sian". Cefais sgwrs a Megan Thomas, gweddwr'r cyfansoddwr, ac adroddodd stori ddigri iawn i mi. Yn angladd y cyfansoddwr gofnodd rhywun iddi "Tell me, what happened to Kenyon?" Nid oedd Mrs. Thomas yn deall y cwestiwn, ac meddai'r holwr, "You know, Kenyon Grace a Sian!"

## Llwyddiant



MAE GWYL Hen Galan Mai yma i aros. Dyna farn swyddogion Amgueddfa Werin Cymru yn dilyn yr wyl dridiau a gynhaliwyd yn Sain Ffagun am y tro cyntaf eleni.

Yn ystod y tridiau - Mai 9, 10, 11 - daeth 15,000 o ymwelwyr i'r Amgueddfa, ac er bod y cyfan wedi costio £25,000 i'w lwyfannu, dywedodd y trefnwyr eu bod yn "hapus iawn" a'r ymateb, er eu bod yn gobelthio gwneud yn well y tro nesaf.

Daeth y Ffair i fod yn sgil sefydlu Adran Farchnata newydd wyth mis yn ol. Bwriad yr Adran yw cynyddu'r nifer o bobl sy'n ymweld a'r Amgueddfa a dywedodd Pennaeth yr Adran, John Bevan, ei fod yn hyderus y bydd gwyl 1987 yn ddwywaith y maint ac yn parhau am bedwar diwrnod.

## CYMORTH I GYNLLUN

AR 15 MAI derbyniodd y Cyngor Sir De Morgannwg newyddion da oddi wrth swyddogion y Gymuned Ewropeidd ym Mrwsel, pan gyhoeddwyd y byddai'r Banc Buddsoddi Ewropeidd yn benthyc £17.5 miliwn tuag at gost y prosiect uchelgeistol o ail-ddatblygu uchelgeisiol yn y Dociau.

Dyma'r ail brosiect o ddatblygu trefol o'i fath i dderbyn benthyciad gan y Banc Buddsoddi Ewropeidd yng Nghymru. Y llall oedd y benthyciad o £9 miliwn a gafodd Cyngor Dinas Abertawe ar gyfer datblygiad y "Maritime Quarter" fel y'i gelwir ym 1984.

Fel y bydd y sawl sy'n gyfarwydd ag ochr ddeheuol y Ddinas yn gwybod, mae'r gwaith eisoes wedi cychwyn a'r gobaith yw y bydd y benthyciad llog isel yma yn sicrhau y bydd yn mynd yn ei flaen cyn gynted ag sy'n bosibl. Ar waelod Heol Penarth, er enghraifft, gwelir cynnydd cyson yn y gwaith o ymestyn y ffordd ddeuol sy'n cychwyn o Gyffordd 33 ar yr M4 ac yn cysylltu a'r A48 ger Croes Cwrlwys.

Bydd peth o'r arian a fenthycir o Ewrop yn cael ei wario ar gysylltu'r ffordd newydd hon a adnabyddir gan y cynllunwyr fel y "Peripheral Distributor Road", a chanol y Ddinas. Mae'r ffordd eisoes yn cludo cryn dipyn o drafnidiaeth i mewn ac allan o ochrau Gorllewinol y Brifddinas a'r bwriad yw ei ymestyn trwy'r Dociau ac allan i ymuno a'r A48(T) ("Eastern Avenue") yn Rhymini.

CANOLFAN YR URDD  
HEOL CONWY  
TREGANNA  
CAERDYDD

## TAFLEN

LLYFRAU  
RECORDIAU  
CASETIAU  
CARDIAU

Ar Agor  
10.00 - 7.00 (5.00 Sat)  
Fflorach Eich Alchod  
CAERDYDD 27530



# LLYTHYRAU LLYTHYRAU LLYTHYRAU

Maes yr Haul  
Cross Inn  
Llantrisant  
Morgannwg Ganol

Annwyl Dinesydd

Dyma rodd fechan i'r Dinesydd gan aelod o Fwrdd Glydyddol "Tafod Elai", gyda diolch am y mwynhad mae eich papur wedi ei roi i mi dros y blynyddoedd.

Er bod y "Tafod" gennym erbyn hyn mae llawer ohonom yn yr ardal hon yn dal i fwynhau darllen y Dinesydd hefyd - ac allwn ni ddim dal i wneud hynny heb wneud rhyw fath o gyfraniad tuag ato.

Yn gywir

Glenys M.Roberts.

Cilcarn  
27 Baron Road  
Penarth

Annwyl Dinesydd

Gair yn fyr i ofyn a fydddech mor garedig â chynnwys y wybodaeth a ganlyn yn rhifyn nesaf y Dinesydd.

Cynhelir Nofio Nawdd Blynyddol yr Urdd yn Sir De Morgannwg ar ddydd Sadwrn 21 Mehefin yng Nghanolfan Chwaraeon Cymru, Gerddi Sophia. Bydd y pwll ar agor rhwng 6.00 ac 8.00 o'r gloch ac fe wahoddir pawb - oedolion a phlant - i gefnogi y fenter hon. Cyfyngir pob nofiwr i ddeg hyd o'r pwll yn unig.

Rhennir yr elw rhwng yr Urdd yn lleol a'r ymdrech genedlaethol i sicrhau dyfodol y mudiad.

Gyda diolch am eich cefnogaeth.

Yn gywir

Garwyn Davies

Tŷ Gwyn  
Y Wenfo  
Caerdydd

Llythyr at Gyn-ddisgyblion Ysgollon Cynradd Cymraeg Caerdydd.

Mae Cymdeithas Cymrodorion Caerdydd yn bwriadu gosod Plac yn Neuadd Ysgol Parc Ninian i gofnodi'r fan y sefydlwyd yr Ysgol Gynradd Gymraeg gyntaf yng Nghaerdydd.

Rydym yn apelio at gyn-ddisgyblion yr Ysgollon Cymraeg, yn enwedig y deunaw disgybl cyntaf, am unrhyw gyfraniadau, bach neu fawr, tuag at y gost o osod y Plac.

Mae'n rhyfeddol meddwl mai o'r ysgol fechan honno o ddeunaw disgybl y tyfodd y pedair ysgol Gynradd Gymraeg sydd yng Nghaerdydd ar hyn o bryd, a bod galw am ragor eto o ysgollon.

Gyn-ddisgyblion, a wneuch chi ein cynorthwyo i goffau'r achlysur hwn yn hanes Ysgollon Cymraeg Caerdydd trwy anfon unrhyw gyfraniad i:

Mr. Glyn Owen

Trysorydd

Cymdeithas Cymrodorion Caerdydd

5 Maes yr Awel

Radyr

Caerdydd

Bydd hysbysiad pellach ynglŷn â phryd y byddwn yn dadorchuddio'r Plac - rhywbryd yn mis Medi yn ôl pob tebyg. Diolch yn fawr i chi.

Susie Evans

Llywydd.

## HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD

## BYW FYDDI NANT GWRTHEYRN



### NANT GWRTHEYRN

Ein geiriau sy'n blaguro yn yr hollt  
Wedi'r hir edwino  
Yno'n y gwyll, a hen go  
Y genedl yn egino.

R.J.Rowlands.

### CEFNOGWYR Y NANT

FE WN I'N ddigon da bod nifer fawr o ddarlennwyr ein papurau bro wedi cefnogi ymgyrch ardechog Y Faner i noddi tŷ yn Nant Gwrtheyrn a dyma nhw eto ar ôl ein ceinlogau prin. Digon gwir, ond credaf bod yna nifer o resymau pam y dylech ddangos eich cefnogaeth unwaith eto i'r criw bychan gweithgar yma yn y gogledd ddwyrafn sydd wedi cael y weledigaeth i sefydlu "Cefnogwyr y Nant".

1. Bwriad y Cefnogwyr yw ceisio noddi tŷ i'r anabl yn y Nant a chredwch chi fi mae yna nifer sylweddol o bobl yng Nghymru sy'n anabl ac yn ceisio dysgu'r iaith ac oni ddylent hwy gael cyfle i ddysgu yn yr unig ganolfan yng Nghymru sy'n canolbwyntio'n llawn amser ar ddysgu Cymraeg i Oedolion.

2. Mae Canolfan Iaith Nant Gwrtheyrn bellach wedi sefydlu'i hun ac eleni rydym yn gorfod gwrthod ceisladau oherwydd prinder lle ac am bod y ganolfan yn orlawn ar brydiau yn ystod y misoedd nesaf ma. Rhaid felly yw cael mwy o le i breswyllo yno i ymateb i'r gofyn cynyddol - fedrwn ni na'r iaith fforddio troi neb i ffwrdd.

3. Mae'n ystrydeb bellach i ddweud bod tyfiant y papurau bro yn ystod y blynyddoedd diwethaf yma wedi bod yn wyrthiol. Mae'n ffaith bod yna lafur caled cyson, di-ddiolch yn aml y tu ôl i ymddangosiad pob papur bro yn fisol. Ychydig iawn yw'r cysylltiad rhyngddynt am resymau ymarferol ariw, ond dyma gyfle iddynt gydweithio mewn ymgyrch gyffrous, holl bwysig i ddyfodol yr iaith ac rwy'n siwr y gwelir yr un brwdfrydedd ag a welwyd pan gododd y Faner £10,000 ddwy flynedd yn ôl.

Rwy'n deall bod yna rhyw ddeugain o bapurau bro erbyn hyn. Fel card da rwy'n amcangyfrif taw dim ond rhyw £250 y papur sydd ei eisiau - o fewn cyrraedd pob papur rwy'n siwr. Ga i apelio at bob papur bro am eu cefnogaeth. Diolch ymlaen llaw ac edrychwn ymlaen fel Ymddiriedolaeth i groesawu holl bapurau bro'r genedl i'r agoriad swyddogol yn Nant Gwrtheyrn....Pryd? Mae'r ateb yn eich dwylo chi. Pob hwyll i'r ymgyrch.

John Albert Evans  
Cadeirydd Ymddiriedolaeth Nant  
Gwrtheyrn.

"Annedd Wen",  
5, Bryn Aur,  
Gorsedd,  
Treffynnon,  
CLWYD.

GWYDDOM fod yng Nghymru fôr o gydymdeimlad â breuddwyd fawr y Ganolfan Iaith yn Nant Gwrtheyrn. Dyma ymgyrch sy'n pontio pawb ohonom o bob plaid, enwad ac iaith. Ac nid breuddwyd yn unig bellach, wrth gwrs gan fod y Ganolfan Iaith eisoes yn llwyddiant. Ond mae gwaith i'w wneud eto. Dengys llythyr John Albert Evans fod llwyddiant y Nant yn esgor ar broblemau newydd. Mae angen addasu ac adnewyddu mwy o dal ac mae angen dirfawr am le addas i'r anabl.

Dyma yw nod cyntaf Cefnogwyr y Nant, sef codi £10,000 ar gyfer paratoi tŷ yn arbennig i'r anabl. Codwyd pwyllgor yma yn Nwyrain Clwyd i gychwyn y gwaith. Y syniad yw cynnig aelodaeth pum flynedd o Gefnogwyr y Nant am £5 neu fwy yn unig. Faint ohonom tybed sy'n credu fod hynny'n ormod i'w ofyn? Gobeithir cynnal cyfarfod cyhoeddus efallai yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abergwaun i godi pwyllgor cenedlaethol.

Y syniad wedyn fuasai codi canghennau lleol, efallai yn seiliedig ar ardaloedd y papurau bro. Hyderwn y cawn ymateb cadarnhaol gan ddarlennwyr y Dinesydd. Bwriadwn anfon rhestr o dro i dro i'w gyhoeddi yn dangos yr ymateb fu o'r dalgylch hwn. Ein gobaith gwirioneddol yw y cawn gefnogaeth barod gennyh, ddarlennwyr eich papur bro. Sut felly mae cynorthwyo?

a) anfon tal aelodaeth o £5 y pen (neu fwy wrth gwrs!)

a/neu

b) anfon am ffurflen gyfamodi

a/neu

c) trefnu rhyw weithgaredd yn eich ardal er budd yr achos.

Yna anfonwch air at ein trysorydd disgwylgar.

Nia Royles (Cadeirydd)

Moi Parry (Ysgrifennydd)

Glenys Davies (Ysg. Aelodaeth)

R. Alun Evans (Trysorydd)

### CÔR CANOLFAN CAERDYDD

Yn eisiau  
ar gyfer mis Medi nesaf

### ARWEINYDD/ARWEINYODES

Côr o bobl ifainc ydym yn mwynhau canu cerddoriaeth amrywiol e.e. caneuon ysgafn a gwerin, gweithiau clasurol, ac yn cynnal cyngerddau yn lleol a chystadlu mewn eisteddfodau.

Os ydych chi'n symud i'r Brifddinas yn fuan neu eisoes yn byw yn ein mysgr a bod diddordeb gennyh i arwain côr danfonwch air atom. Edrychwn ymlaen i dderbyn gair gennyh.

S. Jones, Côr Canolfan Caerdydd,  
Aelwyd yr Urdd, Heol Conwy,  
Pontcanna, Caerdydd.



# Colofn Shân Emlyn



MAE'R DDYNAS dwy'n byw efo hi wedi bod yn brysur iawn y mis dwythfa 'ma. Dwy'n dweud "dynas" achos dwy'm yn siwr iawn beth i'w galw hi. Mae'n ddyrus iawn i gath fach fel fi 'chi. Rhaid ichi faddau Nghymraeg i - wedi dysgu rydwi ar ôl dod yma o Sidcup. Mae 'na rai yn galw'r ddynes 'ma yn Shân, y'n ffrind penna yn deud "Mam", ambell un yn deud Mrs. Edwards, ond am ryw reswm y mae disgwyl i mi ei galw hi'n Nain - beth bynnaog mae hynny'n 'i olygu. Mae bywyd yn ddyrus iawn i gath fach fel fi 'chi.



Dwy'm yn meddwl bod y ddynas 'ma yn hoff iawn ohona'i - tydi hi ddim yn gas - mae'r rhaid imi ddweud hynny - ond yn rhyw gadw hyd braich oddi wrthai. Mi dwi wedi trio rwbio fy hun yn 'i choesau - ond bob tro y gwnai mae hi'n neidio o gwmpas y gegin, a mi dwi di dod i ddeall mai y gegin ydy fy lle i. Ches i rioed fwytha ganddi, a tydy mherchenog i byth yma, ac yn tueddu i fynd dros ben llestri efo fi pan mae hi yma.

Mae 'na ddyn yn byw yn y tŷ hefyd - weithiau - mae hwnna'n gien onfnadwy efo fi - mi ddoth adra pnawn 'ma a deud "Dwi di prynu pel ping-pong ichi Grwndi fach". Dwi'n cael lot o fwytha ganddo fo - a pan mae o adra mi gal orfedd ar y mat o flaen y tan tra mae o yn gwyllo rhyw betha fel "Newyddion Salth", "Y Byd ar Bedwar" a'r "Maes Chwarae".

Gyda llaw, mae'r "ddynas" yn mynd i gael bath pan mae'r "dyn" yn gwyllo'r "Maes Chwarae". Y "dyn" 'ma - dwi'm yn siwr iawn pwy ydy o chwaith - mae o'n cael i alw'n Wan, Dad a Mr. Edwards - ond Taid ydw i i fod i'w alw.

Dwi'm yn cwyno cofiwch, ond mi fyddai'n teimlo'n amal mod i'n byw efo rhyw bobol od iawn - a meddwl r'on i y basa fo'n beth clên i mi sgwennu'r golofn hon yma i'r "ddynas cw" y mis yma, dwi isio'i phlesio hi, a mae hi wrthi hi yn sôn am "Y Dinesydd" byth a beunydd. Fedrai ddim darllen y papur wrth gwrs, ond ewcs mae o'n dwad yma mewn bocsus braf. Wddi i'r "ddynas cw" i tynnu nhw i gyd allan, 'i rhoi yn bentyrâu dros y gegin a sgwennu rhyw beth ar bob pentwr, mi fyddai wrth fy modd yn neidio i mewn ac allan o'r bocsus, a chael cyntyn bach ynddyn nhw weithiau hefyd.

Mae gen i goler goch o amgylch fy ngwddw efo fy enw - Grwndi Edwards, Coed y Pry - nefoedd o le i gath mi fasa chi'n meddwl. Ond mae 'na gloch fach ar y golar ac mae'r pryfed yn 'y nghlywed i'n dwad. Creulon te! Ond chwara teg iddyn nhw - mae hyd yn oed y "ddynas cw" yn prynu Whiskas imi - cyn belled â bod rhywun arall yn agor y tun. Mlaw.

## Y DAFYDD YN DATHLU



Aelodau presennol "Y Dafydd" yn eu cinio Gwyl Dewi eleni.

DAETH TREFN unwaith eto i Goleg y Frenhines yn Rhydychen wedi rhoi croeso ar Fai 3 i dros wythdeg o Gymry hwyliog, yno i ddathlu canmlwyddiant sefydlu Cymdeithas Dafydd ap Gwilym.

Tynnwyd llun yn y Quad a chanodd y gloch i'n gwahodd i fwyta. Wrth ofyn bendith, fe atgoffodd y Parchedig Eirion Davies ni o hanes y gymdeithas, a dymuno'n dda iddi yn y dyfodol.

Wedi'r seigiau amrywiol, daeth cyfle, gyda'r port, i yfed i Gymru, i Ddafydd, Morfudd, y Llywyddion a'r gymdeithas, yn ôl yr arfer. Soniodd y Parchedig G.O. Williams am ei helyntion yn y tridegau, a'n hatgoffa o ddathliadau'r hanner canrif ym 1936.

Cyfrannodd Owen Edwards yn ddfyr ac yn gynnil, a rhoes ymwybyddiaeth gref inni o ddioredd hanes a thraddodiad y gymdeithas ers dyddiau ei sefydlu dan ei daid. Llywyddwyd y noson gan yr Athro Ellis Evans, o Goleg yr Iesu.

Trannoeth, yng nghapel Coleg yr Iesu, cynhaliwyd gwasanaeth o fawl ar y thema "Crefydd, Diwylliant a'r Genedi". Dan arweiniad Kathryn Perkins rhoes aelodau presennol y gymdeithas gyflwyniadau o waith Saunders Lewis, Lewis Valentine, Eifion Wyn, Gerallt Lloyd Owen a Derec Llwyd Morgan. Yr uchafbwynt, o bosib, oedd canu emyn caboledig iawn a sgrifennwyd ar gyfer yr achlysur gan Gwyneth Lewis. Bu'n ddiweddglo da i achlysur cyffrous a chofiadwy iawn.

### EMYN Y CANMLWYDDIANT

Fe roddwyd gwinllan deg i'n gofal ni -  
Maes ein treftadaeth, gardd Dy roddion Di;  
Er difa'r fan, er gwywo'r glas o'r dail,  
Mae blagur eto'n harddu'r gwreiddyn hael.  
Boed iaith ein tadau'n gangen fythol ir,  
A'i cheinciau'n glod i'Th lendid yn ein tir:  
Rhown ddiolch byth, mewn gweithred ac mewn cân  
Am win Dy air, a rhin Dy gymun glan.

Boed dy gynhaeaf ynom yn un llawn,  
Yn gndw llawenydd ac offrymau dawn;  
A boed ein gwaith dros iaith ein gwlad a'i ffawd  
Yn fodd i garu'r Gair a wnaed yn Gnaud;  
Ac os mai pleidiol ydym oll i'n gwlad,  
Mae cartref gwell yng nghyfamodau'r Tad;  
Rhown ddiolch byth, mewn gweithred ac mewn cân  
Am win dy air, a rhin Dy gymun glan.

Gwyneth Lewis.

## RECORD HEDDWCH

AR 14 MAI cyhoeddwyd y record/caset "The Gates of Greenham" trwy wledydd Prydain gyda John Hywel o Borthaethwy yn arwain Cerddorfa Philharmonig Llundain.

Drama gerdd am dair blynedd cyntaf gweryll heddwch merched Comin Greenham yw cynnwys y record newydd a gyfansoddwyd gan Tony Biggin, gynt o Ysgol Aberconwy.

Recordiwyd y cyfan yn Stiwdio CTS, Llundain ddechrau'r flwyddyn gyda Chorws y Crynwyr yn canu gyda'r unawdwy'r Wynford Evans, Eiddwen Harry, Henry Herford a Margaret Cole. Y llefarwyr yw Barry Wilsher a'r actores

adnabyddus Sheila Hancock.

Perfformiwyd y gwaith yn Sheffield yn ddiweddar ar ôl y perfformiad cyntaf yn y Royal Festival Hall ar Sul y Pasg, 1985. John Hywel oedd yr arweinydd ar y ddau achlysur. Roedd yntua wrth ei fodd yn derbyn y gwahoddiad i ymgymryd a'r gwaith. Mae'n bosibl y perfformir y gwaith eto ym Manceinion cyn bo hir.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf bu Cwmni Sain wrthi'n brysur yn dosbarthu'r record a'r caset trwy Gymru a Phrydain a dellir eu bod yn cael gryn hwyl arni.

The Gates of Greenham gan Tony Biggin  
Rhif y Record: Sain I352R  
Rhif y caset: Sain C952R

# Medd y Meddyg

FEL Y GWŶR darllenwyr hoyw'r Dinesydd eisoes, nid ydynt yn perthyn i gymdeithas ar wahan, maent yn rhan o'r gymuned - ein cymuned ni. Byddai'n llawer iawn haws i lawer o ddarllenwyr y Dinesydd i anwybyddu problem A.I.D.S., fel un nad oes angen i Gymry Cymraeg ymboeni â hi. Mae'r gwirionedd, fodd ynnag, yn bur wahanol.

Mae cynifer â 5 - 10% o boblogaeth gwrywol y Deyrnas Unedig yn hoyw a'r garfan yma ar hyn o bryd sydd fwyaf tebygol o gael eu heintio gan firws A.I.D.S. (HTLV III). Y perygl, wrth gwrs, yw mai mater o amser yn unig ydyw cyn i'r achosion achlysurol a gofnodwyd ymhlith y boblogaeth anghyfunrhywiol droi'n llif. Yn Affrica mae cynifer o fenywod ag o ddynion yn dioddef o'r clefyd. Dyna pam yr ystyrir A.I.D.S. fel y byggythiad mwyaf i iechyd y cyhoedd yn yr ygeinfed ganrif.

Trosglywyddir y firws HTLV III trwy gymysgu neu gyfnwedd hylifau corfforol - gwaed a semen yn bennaf. Mae'n digwydd gan amlaf yn ystod gweithgaredd rhywiol ond mae'n digwydd hefyd pan fo'r sawl sy'n camddefnyddio cyffuriau yn rhannu nodwyddau halogedig a phau ddefnyddir gwaed neu gynnyrch gwaed mewn trailwysiad. Yn affodus mae'r achos olaf yma wedi achosi i ryw draean o gleifion haemofilia gael eu heintio. Bellach gobeithir na cheir rhagor o

achosion felly gan fod gwaed a ddefnyddir yn awr yn cael ei bastwreiddio er mwyn difa'r firws.

Yn wyneb nifer o'r storïau cwbl gyfeiliornus sydd wedi ymddangos yn y wasg boblogaidd rhaid pwysleisio'n bendant NAD oes modd trosglywyddo firws A.I.D.S. trwy gymdeithasu arferol. Gallwch ysgwyd llaw a chysgu yn yr un gwely a chusanu, rhannu cwpanau a chyllyll a ffyrac (ond nid rasel neu frws dannedd) â pherson sy'n dioddef o A.I.D.S. heb fod mewn unrhyw berygl o gael eich heintio.

Trwy'r Deyrnas Unedig mae cymaint â hanner-can-mil, neu gan-mil o bobl eisoes wedi'u heintio gan y firws ac mae'r nifer yn cynyddu'n gyson. Disgwylir mai dim ond rhyw 10% ohonynt fydd yn datblygu yr "Acquired Immune Deficiency Syndrome" yn llawn, ond i'r rhai sy'n ddigon affodus, does dim iachad. Mae marwolaeth yn anochel, gyda 50% o'r cleifion yn dioddef o fewn dwy flynedd. Does dim brechlyn ("vaccine") amddiffynnol i'w gael chwaith.

Nid yw'r ffaith fod y mwyafrif o'r tri chant a rhagor o achosion a gafwyd ym Mhrydain hyd yma wedi'u lleoli o gwmpas Llundain yn reswm dros ymfodddad. Mae'n anochel y bydd y clefyd yn cyrraedd pellafod eithaf y tir, ac eisoes haur hadau cyntaf y broblem yma yn Ne Cymru.

Mae'r hyn sy'n gyffredin yn Llundain heddiw yn cyrraedd Caerdydd a'r dinasoedd mawrion eraill, yn enwedig y rhai hynny a nifer helaeth o drigolion neu ymwelwyr hoyw, yfory. Mae hyn oherwydd bod cyfnod y deoriad ("incubation") yn un hir - efallai cymaint â thair neu bedair blynedd neu hyd yn oed fwy. Yn Llundain a San

Francisco ac Efrog Newydd heddiw rydym yn gweld canlyniadau'r hyn a fu'n digwydd yn y dinasoedd hynny ychydig flynyddoedd cyn y llawn sylweddolwyd y peryglon.

Gallai newidoladu mewn arferion byw pobl hoyw a chyfunrhywiol efallai rhwystro' un math o ffrwydriad rhag digwydd yma yng Nghaerdydd mewn ychydig flynyddoedd. Nid yw'n hawdd i ddweud wrth ddyd cyfun neu anghyfunrhywiol sut y dylai gyfathrachau'n rhywiol. Does dim yn ymyrryd mwy â'i fywyd personol nag ymdrech i osod canllawiau ar gyfer ymddygiad pan fo'r tymheredd yn codi yn y gwely. Ond mae modd bod yn ofalus, a byddaf yn trafod y thema'n bellach yn y rhifyn nesaf.

Yn y cyfamser mae Awdurdod Iechyd De Morgannwg ar fin cwblhau ffilm fideo newydd ynghylch A.I.D.S. a buaswn yn falch o'r cyfle i'w ddangos i unrhyw grwp sydd a diddordeb. Ar yr un pryd byddwn y falch o ateb unrhyw gwestiynau ar y pwnc yn gyffredinol. Yn affodus, mae'n flin gen i ddweud nad oes gennym fersiwn Gymraeg o'r fideo a byddai'n rhaid i mi gynnal y cyfarfodydd yn Saesneg, ond mae'r pwnc yn un pwysig. Gellir cysylltu â mi ym mhencadlys Awdurdod Iechyd De Morgannwg yn y Deml Heddwch, Parc Cathays (Caerdydd 31021 estyniad 2236) neu yn fy nghartref (Caerdydd 753695) a cheir gwasanaeth cymorth a chyngori cwbl gyfrinachol dros y ffon ar Gaerdydd 40101/2 rhwng 8.00 a 10.00 o'r gloch y nos ar nosweithiau Mawrth, Iau a Sadwrn.

Dr. Don Anderson  
Arbenigwr Mewn Meddygaeth Gymunedol  
(Hyrwyddo Iechyd)  
Awdurdod Iechyd De Morgannwg

## Meithrin



YDYCH CHI GARTREF BOB DYDD  
GYDA'CH BABI NEWYDD?

Weithiau mae mamau sydd wedi bod yn gweithio neu sydd newydd symud tŷ, cyn cael babi, yn ei ffeindio'n anodd wrdd â mamau eraill yn yr un sefyllfa, yn yr un ardal. Hoffai Cychoedd Mam a'i Phlentyn eich helpu.

Ar hyn o bryd mae deg cylch yng Nghaerdydd a phump yn y Fro - dim digon, rydyn ni'n sicr o hynny. Hoffen ni sefydlu rhagor - ond ble? Os ydych chi adref gyda'ch babi rhowch wybod i ni. Hoffen ni eich helpu chi i gwrdd â mamau eraill yn eich ardal.

YR WYL FEITHRIN, MAI 3 - 10.

Diolch yn fawr i bawb helpodd i wneud yr Wyl yn un mor llwyddiannus. Roedd y cychoedd yn falch iawn o'ch gweld yn eu boreau coffi/agored.

Dydd Sadwrn y 10fed o Fai rhywsut llwyddodd Gwilym Roberts i drefnu'r plant a'u rhieni ar gyfer yr orymdaith a chredwch neu beidio roedd yr haul yn gwenu arnom er fod y gwynt bron â chwythu'r plant a'u baneri i ffwrdd. Daeth yr orymdaith i ben y tu allan i Neuad Dewi Sant gyda Gwilym yn arwain hanner awr o ganu gyda'r plant. Diweddglo swyno!

CWRS HYFFORDDI ARWEINYDDION A  
CHYNORTHWYWRAGEDD.

Os oes gennych chi diddordeb mewn ymuno â'r cwrtsiau yng Nghaerdydd, Y Barri neu'r Bontfaen, nawr yw'r amser i gynnig am le. Hefyd hoffem ni glywed oddi wrthywch os oes gennych diddordeb yn swyddi tiwtoriaid y cwrts meithrin neu yn y swyddi yn y meithrinfeydd.

Am fanylion pellach cysylltwch â Margaret Knight, Swyddog Datblygu'r Fro: Ffôn: 891353, Elaine Pye, Swyddog Datblygu Caerdydd Ffôn: 762232.

## YMWELD A'R ALBAN

gan Gaynor Walter Jones.



John Albert a Donald John McLeod

ROEDD WYTHNOS olaf Mawrth eleni yn wythnos i'w chofio - cysgu mewn gwesty moethus bob nos a hedfan i'n gwaith bob bore. Cael cyfle i weld mawredd y Cairngorm a phrydferthwch Ynysoedd yr Hebrides o'r awyr. Ymweld â Glasgow, Inverness a Stornoway, mewn wlan, dwy ysgol, amgueddfa ac oriel gelf a chymryd rhan mewn dau gyfarfod ar bymtheg, ffurfiol ac anffurfiol, a'r cwbl mewn pedwar niwrnod. Sut felly, a finne'n gweithio fel athrawes bro ym Morgannwg Ganol? Wel mynd oedden ni gyda John Albert Evans, Trefnydd Iaith y Sir, ar wahoddiad Donald John McLeod, swyddog addysg Comunn Na Gaidhlig - Cymdeithas sy'n hybu datblygiad addysg drwy gyfrwng y Gaeleg.

Pwrpas y daith oedd rhannu profiadu am ddyddu Cymraeg gyda rhieni, athrawon, swyddogion a gweinyddwyr addysg. Diddordeb pennaf y rhai y trefnydd i ni siarad â nhw oedd sut i wneud y gorau o'r adnoddau prin oedd gunddynt. Mae'n ymddangos fod yna nifer

o lyfrau stori eisoes wedi'u trosi o'r Gymraeg i'r Gaeleg ac mae gobaith bydd y gyfres ddarllen Cyfres y Ddraig yn cael ei defnyddio yn y dyfodol agos.

Cawsom gyfle i ymweld â'r unig ddwy uned lle mae'r Gaeleg yn gyfrwng addysg - un yn Glasgow a'r llall yn Inverness a diddorol iawn oedd cymharu'r sefyllfa â'r un a fodolai yng Nghymru dros ddeng mlynedd ar hugain yn ôl.

O safwbwynt cyflwyno iaith yn yr ysgolion mae eu problemau yn rhai sy'n gyfarwydd i ni yma yng Nghymru. Ond ar hyn o bryd mae'r gymhariaeth rhwng sefyllfa'r iaith Gaeleg a'r Gymraeg yn gorffen fan'na bron. Ar wahan i drigolion yr ynysoedd prin iawn y clywir yr iaith yn cael ei defnyddio'n naturiol yn yr Alban, ond braf oedd deall mae'r Gaeleg a ddefnyddiai bob un o'r hanner cant o weithwyr ym Melin Wlan Harris Tweed ar ymys Lewes wrth iddynt fynd o gwmpas eu gwaith.

Do fe deithion ni dros saith can milltir, oedd roedd yn flinedig, ond roedd gwerthfawrogiad y rhai a'n croesawodd a'r hyn oedd ganddynt i'w ddweud yn gwneud pob ymdrech ar ein rhan ni i baratol yn drylwyr cyn mynd, o werth. Nid gwaith oedd y cyfan - cefais fore yn Glasgow i mi fy hun ar y ffordd nôl a chael cyfle i gael cipolwg, llawer rhy fyr, ar gasgliad godidog Burrell - roedd lleoliad yr Oriol ei hun yn ryfeddod, heb som a'n oddiogrwydd y casgliad, a thrwy ryw ryfedd wyrth deuthum o hyd i Amgueddfa Glasgow lle roedd arddangosfa o waith y pensaer nodedig Charles Rennie Mackintosh. Mae ei waith oedd yn atodol i'w brif faes wedi apellio ataf ers amser a cheifais fwynhad mawr o weld enghreifftiau o'i ddoedrefn, ei ddarluniau a hyd yn oed y cyllyll a'r ffyrac a gynnlluniodd.

Rhaid mynd yn ôl - a dyna hefyd obaith Donald John McLeod - datblygu'r cwlwm Celtaidd ac elwa o brofiadau'n gilydd.



# Gŵyl Ifan

YN YSTOD y mis yma fe fydd Cwmni Dawns Werin Canolfan Caerdydd yn dathlu Dengmlwyddiant Gwyl Ifan mewn ffordd llawer mwy moethus nac a freuddwydiwyd erioed gan ein cyn-dadau wrth iddyn nhw ddathlu'r wyl ganrifoedd yn ol.

Y rheswm - Gwyl Ifan fydd un o'r digwyddiadau cyntaf i gymryd lle yng ngwesty bendigedig newydd yr Holiday Inn a agorwyd ychydig ddyddiau yn ol yng nghanol y ddinas. Eleni dehlir Gwyl Ifan ar 20-23 Mehefin.

Fe ddathlwyd yr wyl yng nghyffinau Caerdydd yn ol yn y ddeunawfed ganrif mewn mannau fel Llandarf, Penmarc, St.Nicolas, Gwenfo, Llandaf a Sain Ffagan. Ac yn wir fe gyfeirir at wyl o'r fath cyn belled yn ol a Chyfreithiau Hywel Dda.



Un rhan nodweddiadol o'r wyl draddodiadol oedd y dawnsio, ac unwaith eto eleni fe fydd y ddinas a'r ardaloedd cyfagos yn gallu mwynhau gweld dawnsiwr cyfoes yn perfformio rhai o'n dawnsfeydd traddodiadol.

Agorir yr wyl ar y nos Wener gyda Twmpath Dawns yng ngwesty'r Holiday Inn, Eleni, fe fyddwn yn newid cwrw yr orymdaith arferol gan ddechrau o'r gwesty i fyny Stryd y Santes Fair a heibio'r Castell. Yn ogystal fe fyddwn yn ymweld a rhai mannau dawnsio a fu'n boblogaidd yn y gorffennol. Hyn i gyd, wrth gwrw, ar ddydd Sadwrn. Am bedwar o'r gloch fe fydd yr holl ddawnsiwr yn ymgymal yng Ngwesty'r Dyffryn Ffrwd, Nantgarw i ddathlu Gwyl Ifan gyda dawnsio cyffrous.


Dehlir Gwyl Ifan yn Nantgarw gan fod cymaint o'n dawnsfeydd gwerin yn dod o'r pentref a'i gyffiniau. Cofiai Mrs. Margaretta Thomas, brodores o Nantgarw, rhai o'r dawnsfeydd yma yn cael eu dawnsio yn yr ardal yn ystod y ganrif ddiwetha - dawnsfeydd fel "Rali Twn Sion" a welodd yn Ffair Caerffili, "Ceiliog y Rhedyn" a welodd yn "Long Room" yn nhafarn y Cross Keys, Nantgarw, a "Dawns y Pella" a welodd yn Ffair y Ton.

Ar y nos Sadwrn fe fydd gwledd i ddathlu dengmlwyddiant Gwyl Ifan eto yng ngwesty'r Holiday Inn. Mae gweithdai wedi eu trefnu yn y gwesty ar fore Sul.

Eleni r'un ni'n disgwyl tua dau gant o ddawnsiwr o Gymru, ynghyd a thimoedd o Lydaw, yr Alban a Chernyw.

Fe fydd dathlu dengmlwyddiant Gwyl Ifan yn un o uchafbwyntiau hanes y cwmni. Pwy feddylia pan ddechreuodd Gwyl Ifan yn 1977 fel gwyl unddyd y tyfai i fod yn wyl lewyrchus sy' erbyn hyn wedi dod yn un o brif wyliau dawnsio yng Nghymru.

Mae croeso cynnes i chi ddod i ffasu a mwynhau yr wyl gyda ni. Os am fanylion pellach, neu docynnau i'r gweithgareddau cysylltwch a: Andrew Tyler, 6 Brynteg, Rhiwbeina, Caerdydd. Ffôn: 613239.



Golygfa yn nociau Caerdydd. Enghraifft o waith yr arlunydd ifanc Peter Spriggs a fydd i'w gweld mewn arddangosfa unigol ger yr Eglwys Gadeiriol yn Llandaf y mis yma.

## PENARTH A DINAS POWIS

Capel Bethel, Cyfarfod Arbennig o  
Ddiolchgarwch ar Ebrill y 25ain

MEWN GWASANAETH dan ofal y gweinidog, y Parchedig Meurwyn Williams, talwyd teyrnged i Mrs Winifred Llywelyn, wedi iddi ymddeol ar ol un mlynedd ar hugain o waith fel Ysgrifennyddes y Capel. Llafuriodd yn ddiflino gan sicrhau ymhlith ei dyletswyddau fod y pulpud wedi'i lenwi am dros dair mil o oedfaon. Cyflwynwyd "cameo" hyfryd i Mrs Llywelyn gan y Gweinidog fel arwydd o werthfawrogiad o'i gwaith. Hefyd rhoddwyd trefniant o flodau mewn basged iddi a'i gyflwyno gan Miss Mair Harries. Paratowyd gwledd arbennig ac annisgwyl i Mrs Llywelyn ar ol yr oedfa. Canolbwynt y bwrdd trymlwythog oedd cacen hardd a addurnwyd gan Mrs Gill Lewis. Mrs Helen Daniel oedd yn gyfrifol am drefnu'r blodau i'r capel ac i'r wledd. Fe ganodd Mrs Gill Lloyd benillion i gyfarch Mrs Llywelyn - y penillion wedi'u cyfansoddi'n arbennig at yr achlysur gan Mr Rowland Owen. Cynigwyd llwnc destun i Mrs Llywelyn gan Ioan Rees. Diolchwyd i'r gwragedd am holl drefniadau'r wledd. Noson i'w chofio i Winifred a'i gwr, Vernon Llywelyn.

### Hunangyflogedig? Heb Bensiwn?

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

## LYNN JONES

30, Highfields,  
Llandaf,  
Caerdydd, CF5 2QB

**BUDDSODDIADAU  
YSWIRIANT BYWYD  
PENSIYNAU**



WEL HELO a pha hwyl sydd? Pan own i'n sgwennu'r llyth hon i chi mis diwetha mi rown i'n edrych allan ar gaeau Llandaf (chwilio am ysbrydoliaeth) ag yn gwylio sawl tim criced yn chwarae'r gem hafaidd, gwyn a gwaraidd - erbyn hyn fedrai ddim gweld y caeau jest gan fod y coed wedi deilo yn llawn. Fedrai weld dim ond dall mawr gwyrd symud yn y gwynt ag mae mor dawel 'ma.

Fis yn ôl roedd staff Sain Ffagan yn paratol eu tai a'r gerddi gogyfer a'r Wyl Fai. Mi ges i'r pleser o gwmi teulu Aberleine - fferm braf yn Drefach, Felindre gan mod i'n treulio diwrnod yn eu cwmni - mi gafodd yr "home brew" mae nhw'n glamstars ar ei wneud groeso cynnes ar aelwyd Cegin y Castell - mor gynnes a'r croeso cefais i ar eu haelwyd nhw yn Abertare.

Aelwyd lle mae yna amser i fwynhau cwmni pwy bynnag sy'n galw boed yn Swyddog A.D.A.S., trafelliwr "feed" gwartheg, hen ddynas fusneslyd o'r Bib - mae yna amser i bawb. Mi roedd y teulu yn rhyfeddu at ein rhuthr ni yma yng Nghaerdydd - gymaint i'w wneud a byr ydi'r amser i'w wneud.

Fwrw'r Sul diwetha dyma deithio i lawr i Borthgain ger Ty Ddewi a threulio amser yng nghwmni gwr ifanc sy'n artist yn y pentre - hwnnw'n son am yr wythnosau ar eu hyd mae o'n dreilio heb adael Porthgain a gweld neb ond ambell gymydog - gwyn ei fyd meddwn innau.

Ond ar noson braf o haf (fel heno) does yna unman gweli na chaeau Llandaf (fy ngardd ffrynt) a'r tawelwch - y coed yn sionc braf a'r adar yn canu - dyna un ploden ar gangen, mae'n oce dyna un arall.

Mi fyddai diwrnod neu ddau fel hyn yn debyg i Haf!! Hwyl.

### EISIAU GWAITH?

Merch i edrych ar ôl dau blentyn 9 a 7 oed ar ôl ysgol o 3.30 pm tan chwech. Fe fydd angen aros yn hwyr ambell noson. Rhif ffôn ar ôl 6.00 o'r gloch: 28941.



## Y Gorau yn Gyson i Gymru

Cynhyrcha HTV Cymru amrywiaeth  
mawr o raglenni teledu  
ar gyfer S4C

Daw ein rhaglenni o bedwar ban y byd yn ogystal ag o  
Gymru — o'n canolfannau teledu yng Nghaerdydd a'r  
Wyddgrug, a thrwy gyfrwng ein hunedau, ein  
cynhyrchwyr a'n cyflwynwyr, ym Mangor a  
Chaerfyrddin. Ymunwch â'r Cyffro Teledu drwy raglenni



ar **S4C**

Y Gorau yn Gyson i Gymru





YN UNION ar ôl i'r Nadolig fynd heibio gwelir hysbysebu di-ddiwedd am wyliau haf, ac erbyn hyn credaf fod y cwmnïau teithio yn eithaf bodlon â'r tywydd anwadal yn ein gwlad, gan mai dyma un o'r ffactorau pennaf sy'n gwneud i bobl benderfynu ar wyliau dros y dŵr. Trueni ynte fod haf gwlyb y llynedd wedi dylanwadu ar ddewis llawer mwy ohonom eleni i fynd dramor; gyda hyn ag effaith ymddygiad diweddar Reagan a dilynwy'r Gadaffi bydd llai o ymwelwyr yn cymryd mantaïs o'r hyn sydd gan Gymru i'w gynig.

Er fy mod innau hefyd wedi archebu fy lle ar un o draethau mor y Canoldir yn ystod gwyliau'r haf rwyf yn ceisio gwneud yn fawr o ysblander gwlad ac arfordir Cymru. Mae fy ngŵr ar adegau yn gorffwrdd gweithio pan rwyf ar fy ngwyliau o'r gwaith ac ni allwn fforddio'r amser i fynd oddi cartref am ychydig ddyddiau neu benwythnos hir. Rho hyn gyfle i ni dreulio amser mewn rhannau o Gymru sy'n anghyfarwydd i ni, neu i fynd yn ôl i'n hoff fannau.

Ym mis Mai euthum i Orllewin Cymru ac i leoedd nad oeddwn wedi bod iddynt ers yn blentyn, fel cartref Dylan Thomas, Castell Carreg Cennen, Tŷ Ddewi, Abergwaun, Erbyn pump o'r gloch ar y nos Sadwrn, ar ôl ymweld â sawl lle yn ystod y dydd, roeddem ar y ffordd rhwng Solfach a Hwlfordd ac roedd yn hen bryd edrych am rywle i aros am noson. Roeddwn wedi torri hysbyseb o'r Western Mail am un gwesty; daliwyd fy sylw gan eiriau hysbyseb "Sutton Lodge, Portfield Gate: Country House for the discerning", Diddorol, meddyliais a gwerth mynd i weld beth oedd gan y gwesty hwn i'w gynig.

Mae gwesty Sutton Lodge wedi'i leoli ar ffordd B4327 tua milltir y tu allan i Hwlfordd. Dim ond pythefnos cyn i ni fynd yno oedd y gwesty wedi agor ar ôl cael ei adnewyddu. Gan mai ni oedd yr unig rai oedd yn aros y noson honno cefais gyfle i siarad gyda'r perchnogion, Mr a Mrs Fielder.

Adeiladwyd y tŷ yn 1810 ac mae llawer o'r arweddau gwreiddiol wedi'u cadw yn y broses o adnewyddu. Mae'r holl waith pren - y drysau, canllaw y grisiau ac yn y blaen wedi'u diosg yn ôl i'r pinwydd gwreiddiol ac mae'r gratiau tan agored yno o hyd. Mae'r ystafelloedd bwyta, y loifa a'r loifa haul wedi'u haddurno gyda gofal gan gymryd i ystyriaeth cymerialad y ty ei hun ac fe lwyddir i greu awyrgylch tawel ac esmwyth. Mae gan bob lloft deledu lliw ac ystafell ymolchi.

Ceir golygfa wledig hardd o'r stafelloedd gwely, ond nid dyma'r unig beth diddorol am y gwesty. Enw'r cwmni sy'n rhedeg y lle yw "Health Holidays" ond roedd Mr a Mrs Fielder yn awyddus i

egluro nad fferm lechyd yw'r lle. Mae yno gyfleusterau wedi'u hychwanegu sy'n rhoi cyfle i chi ymlacio ac i fod yn hunan faldodus am ychydig oriau, neu fwy. Ceir cyfle i gael sauna neu ymarfer yn y gampfa - lle mae offer o safon uchel wedi ei ddewis gyda chynghor yr athletwr Lynn Davies. Gellir cael gwasanaeth tylinwr corff, beautician, ffisiotherapydd a thrinwr gwallt. Fel ymdrech i gael pobl sy'n aros yn y gwesty i gymryd mwy o ddiwrdd mewn gofalu am eu iechyd golygwr darparu darlithoedd ar bynciau fel maeth, diet, coginio, yoga, cadw'n heini ac yn y blaen. Dywed eu pamffled sywddogol fod cyfarwyddwr lechyd y gwesty yn arbennigwr yn Harley Street (John Davies, meddyg tim rygbi Cymru).

Mae'r dewis o fwyd sydd ar gael yno yn gosod pwyslais ar fwyta'n iach ond nid i'r eithaf. Ni fydd raid i'r preswilydd ddiodeff pryd o sudd moron a choes seleri. I frecwast cawsom ddewis o yogurt naturiol, sudd oren, compote o ffrwythau a chynhwysion i wneud muesli, h.y. dewis o wahanol gnau, ffrwyth sych ac yn y blaen, i'w cymysgu i blesio'r unigolyn. Bara gwenith cyflawn a ddefnyddiwyd i wneud tost ac roedd cig moch ac wy ar gael fel prif gwr os mynech. Hyfryd oedd elistedd wrth y bwrdd brecwast - nid oeddwn wedi cael pryd wrth fwrdd pren yn eistedd ar fainc hir er pan oeddwn yn blentyn yn nhy fferm nain.

Bydd na ychwanegiad at y cyfleusterau yn y gwesty yn y dyfodol; mae cynlluniau i adeiladu pwll nofio, cwrt chwarae sboncen a solarium. Dyma fenter effallai sydd wedi'i gyfeirio at y rhai hynny sy'n ysu am ddianc o Lundain gyda digon o arian i fwynhau'r gost o ymlacio ewrn gwesty fel hwn. Maent yn hysbysebu mewn cylchgronnau fel y Tatler, Vogue a Country Life. Ond mae gwestai eithaf cyffredin mewn rhai gwledydd ar y cyfandir, e.e., yr Iseldiroedd, yn cynnig cyfleusterau tebyg i hyn.

Gyda'r Eisteddfod mewn man sy'n eithaf agos i'r gwesty ym mis Awst beth am dretio'ch hunan i noson neu ddwy yn Sutton Lodge i gael ymlacio ychydig. Dyma enghreifftiau o'r prisiau (eithaf teg i'w cymharu â gwestai safon tair swren) Gwely a Brecwast, ystafell ddwbl: £45 y noson; zvda ohrvd canol ddvd a chinio: £70 (gellir defnyddio'r gampfa a'r sauna am y pris hwn). Os am aros am benwythnos o nos Wener hyd ar ôl cinio dydd Sul, gan gynnwys sauna a thylino'r corff y pris yw £75 am ystafell sengl neu £140 am stafell ddwbl.

Mae na restr o driniaethau harddwch e.e. tylino'r wyneb: £9.50  
gwersi yoga: £2 y sesiwn  
tylino'r traed: £6.50  
cwyro'r coesau: £11  
ffurfio'r aellau: £2

Gellir hefyd cael cwrs teneuo sy'n cynnwys rhestr o driniaethau o £22 am ddiwrnod hyd at £110 am chwe niwrnod. Yr union beth i'r rhai hynny ohonom sydd wedi gor-foddio yn y pethau da yn y gwledydd tramor ar eu cyfrif traul!



## LLYFRAU

Monetary Economics gan Dr. B. Julian Beecham.  
Longman Exam. Studies

YN ÔL yr hen rigwm fe dyngodd Joni Morgan "na siafe fe byth mo'i farf i ffwrdd nes ennill ei ddigr!", ond, yn anffodus, fe ddathlodd y Wisgars eu Jiwbill ymhell cyn i Joni feddu B.A.! Pe bai'r truan wedi cael gafael ar gopi o "Monetary Economics", efallai y base fo wedi arbed peth o'i artaith hir-ar-drywydd llwyddiant.

Bwriad cyfres Longman Exam. Guides yw cynorthwyo myfyrwyr i basio arholiadau drwy drafod eu meysydd llafur yn fanwl, ac hefyd, drwy gynnig cynghorion ymarferol ynglŷn â'r dulliau gorau o ateb cwestiynau a sut i fynd ati i adolygu i bwrpas.

Mae cyfraniad Dr. Beecham i'r gyfres wedi ei anelu'n benodol at fyrrwyr sy'n astudio ar gyfer arholiadau Sefydliad y Bancwyr, ac yn ei lyfr mae'n ein tywys drwy'r maes llafur dan benawdau eglur ac yna'n canolbwyntio ar bapurau arholiad gan amlinellu "modelau" o atebion.

Mae'n annog ei ddarlennwyr i feistrolli damcantaethau Economeg Ariannol heb anghofio mai byd newidol yw byd arian, ac i gadw pob bys ar ddolur diweddaraf y farchnad mae'n brithio ei benodau a chyfeiriadau at gyhoeddiadau a fydd o ddefnydd i fyfyrwyr.

Cyfarwyddwr Astudiaethau Bancio yn Athrofa Addysg Uwch De Morgannwg yw Dr. Beecham ac mae ef a'i wraig Enid yn adnabyddus i Gymry Caerdydd - bu eu plant yn ddisgyblion yn Ysgol Bryntaf ac mae Enid yn un o ffyddloniaid dosbarthiadau Cymraeg Adran Efrydiau Allanol Coleg y Brifysgol.

Llongyfarchiadau i Dr. Beecham ar ei gyfrif newydd.

Joni Morgan - mynnwch gopi a chofiwch gyngor yr awdur: "Gofyn am drwbwl fydd swatio munud olaf".

BYDD DARLLENWYR selog y Dinesydd yn cofio gweld nodyn yn y calendar am noson ardd Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf. Roedd disgrifio'r saga fel "noson" yn gamarweiniol a dweud y lleia' - mae wedi bod yn bythefnos garlamus - er nad dyna'r gair i ddisgrifio'r pla malwod!


Erbyn hyn dim ond rhyw drueiniaid gwannaidd sydd ar ôl. Mae trafod dros 30,000 o blanhigion gydag enwau cymhleth o A i Z a'u rhoi'n barod i dros gant o archebion rhag blaen wedi gwneud lles i'r cymalau. Diolch i rieni yr ysgol ac i gyfeillion yr achos am fod mor hynaws wrthym ac am wneud y gorchwyl yn un mor blesurus.

Faint godwyd? Dydi'r swm ddim yn gyflawn eto, ond bydd yr ysgol yn elwa o tua £750 - ac i feddwl fod yr holl beth wedi dechrau ar ddydd Calan, dydd glanhau'r ty gwydr bach.

Edrychwn ymlaen at y flwyddyn nesaf - a diolch eto.

Don a Malit Anderson.

**Paentio a phapuro a phob agwedd o waith cynnal a chadw adeiladol, cysyllter â Ieuan Williams. (Ffôn 610957).**





## DIWEDD TYMOR

ROEDD NA ochenaid o ryddhad yn y tŷ 'cw ar ôl chwarae gem beldroed olaf y tymor yn diwedd mis Ebrill. Na, nid o'm tu i, ond o gyfeiriad y wraig, coeliwch neu beidio. Roedd y clwstwr o gemau diwedd tymor, dydd Sadwrn, dydd Llun, dydd Iau, dydd Sadwrn, dydd Llun, a dydd Mawrth, dydd Iau, dydd Sadwrn, dydd Mawrth, wedi bod yn ormod i'w stumogi.

"Mae'r felan ar hwn", fe'ch clywaf yn dweud. "Ydi pethau ddim wedi bod yn dda ddiwedd y tymor, fentra i."

Wel, ma na beth gwrlonedd yn ail ran y cymal, ac o'r herwydd, hyd y gwyddys, anisicr yw dyfodol Clwb Cymric yn adran Premier Cynghair Caerdydd a'r Cylch.

Fel y gwyddoch, mae na frig a gwaelod o bob adran o'r gynghair. Byddwch yn falch o glywed na ddaeth i lwybr Clwb Cymric yr un o'r ddau safle yma. Hanner munud, gochelwch rhag canmol na phitfo - ail parchus oedd ein hanes - ail o'r gwaelod yn anffodus. Ond, ac mae e'n anffodus braidd, petae tim Witla Court wedi cwblhau eu gemau hwy yn hytrach na thynnu allan o'r gynghair gyda dim ond dwy gem yn weddill, byddai dyfodol Clwb Cymric wedi bod yn fwy na saff.

Amser a mympwy pwysigion y gynghair fydd yn penderfynu tynged y clwb bellach.

Os mai du a syber yw'r sefyllfa roedd y perfformiadau ar y maes yn ystod Ebrill, er amled y chwarae, yn hynod o glos a chystadleuol.



"Y peth crwn gwyn yna? Roedd o yma dau funud yn ôl."

1. Ennill o 7 gôl i 1 yn erbyn Witla Court: buddugoliaeth orau'r tymor o ran golllau a phedair ohonynt i Chris.
2. Ymddangosiad cyntaf y Clwb mewn rownd gyn derfynol Cwpan o unrhyw fath, ond yn anffodus yn erbyn pencampwr y Gynghair, Bridgend Street. Cafwyd ymdrech wych gan baw cyn colli'r dydd o 4 gol i 2, gyda Cerith ac Eirwyn yn rhwydo. Gol gyntaf Eirwyn i'r clwb.
3. Colli o 2 gôl i 1 yn erbyn Grange Albion wedi brwydro caled a chyson a gôl i Dewi Chips yn haeddu pwynt o leiaf o'r gem.
4. Gem gyfartal yn erbyn tim papur Wiggins Teape o 2 gôl yr un, a hynny wedi i'r Cymric fod ar y blaen o 2 gôl i ddim wedi dau funud o'r gem.

5. Ennill o 4 gol i 3 yn erbyn Fairwater Social a, syndod y byd, Chris yn rhwydo bedair gwaith unwaith eto i sicrau'r pwyntiau angenrheidiol.

6. Colli o 3 gôl i 2 yn erbyn Llanedeyrn a hynny i'r tim a sicraodd eu lle ar waelod yr adran ar ddiwedd y tymor. Gôl wych gan Huw Bach ac yna clic o'r smotyn gan Chips oedd cyfraniad y Cymric i'r gem.



Fe ddylai pethau fod rhywfaint yn haws ar ôl symud y gôl!

7. Gem gyfartal arall yn erbyn Wiggins Teape, un yr un y tro hwn.

8. Colli ymhellach o 4 gôl i 2 yn erbyn St Patricks a rhaid codi het o gyn chwaraewr Cymru a Chaerdydd Gil Reece am ei frwdfrydedd yng nganol y cae i'r Pats.

9. Y gem olaf oedd honno yn Nhreflai yn erbyn Grange Quins a rhaid oedd ennill dau bwynt i wneud yn saff o aros i fyny. Yn anffodus dydy straeon Roy of The Rovers ddim yn rhan o chwedloniaeth Clwb Cymric a cholli o 3 gôl i 2 oedd yr hanes.

A dyna fo, fel yr ebychall cyfai! o Ddyfryn Nantlle tra'n dweud stori, dro ar ol tro, yn ystod y sgwrs. Dyma'r ffeithiau moel i chi. Barnwch eich hunain os ydi Clwb Cymric wedi chwarae ei ran wrth hyrwyddo'r hyn sydd orau ynghanol llifeiriant digydymdeimlad ein prifddinas.

Yn ystod y cinio blynyddol gwobrwyd chwaraewr y flwyddyn am y tymor ddaeth i ben. Braf ydy cael cofnodi na ddaeth Cen Williams yn agos at unrhyw wobwr eleni eto, ac felly ni fydd ei lun yn ymddangos ar dudalennau'r Dinesydd fyth eto. Cipiwyd gwobr y tim cyntaf gan y penfelyn ei hun, Huw Bevan, asgwrn cefn yr amddiffynfa ers dychwelyd o'i daith rownd y byd ym mis Tachwedd - ac yn llawn haeddu'r clod gan ei gyd-chwaraewr. Enw cyfarwydd a gliplodd wobwr yr ail dim, Hefin Rowlands, a dyna un felly a wnaeth y gamp ddeublyg o ennill gwobr y tim cyntaf a'r ail dim yn eu tro.

Yn olaf diolch i'r ddau gapten, Huw Bach a Twics am eu gofal wrth y tymor, a diolch i baw sydd wedi cefnogi a chynrychioli'r Clwb ar y maes beldroed neu unrhyw faes arall. Ar ddiwedd tymor, mae'n drueni gorfod dymuno'n dda i'r ysgrifennydd, Emyr Roberts, a fydd yn symud i weithio i Lundain cyn hir. Colled fawr ond diolch am dy gyfraniad, a hwyraeth y cawn dy groesawu nol rywbryd yn y dyfodol.

O.N: Pwy sydd wedi bod yn achwyn wrth ei fam ei fod yn cael cam mawr gan y Dinesydd, ac wedi mynnu fod ei fam yn ffonio eich gohebydd i gwyno am ei driniaeth yn y golofn chwaraeon. Pwy feddyliech - does bosib mai Gareth Huws ydy'r babi mam. Tybed?

## CLWB CINIO MERCHED CAERDYDD

CAFWDYD NOSON ardderchog i ddathlu gweithgareddau Clwb Cinio Merched Caerdydd yng ngwesty'r Thatchers, nos Iau Mai 8 pan ddaeth nifer fawr ohonom ynghyd i fwynhau pryd o fwyd ac i wrando ar sgwrs gan ein Gŵr Gwadd y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Elystan Morgan o dan lywyddiaeth ein cadeirydd Myfanwy Jarman.

Er i'r gŵr gwadd ddweud ei fod "yn teimlo fel Daniel yn ffau'r llewod, neu'n hytrach i ffau'r llewesau" wrth fynd i mewn i'r neuadd fwyta, edrychais yn eitha hapus yng nghwmni'r llywydd ac un o'i gymdogion gynt yn Llandre, Gwen Owen, a Janet Phillips, un o'i gyd-ddisgyblion yn Ysgol Ardwyn, Aberystwyth.

Pan ddaeth yn amser iddo siarad roedd yn amlwg yn ddigon cartrefol yn ein mysg ac fe gawsom araith ddfifyr a diddorol iawn am y Bar. Na, nid sôn am fan cyfarfod Undeb y Tancwyr ydoedd, ond am "Bar ym Myd y gyfraith. Cawsom beth o hanes y Bar, sut y bu iddo ddatblygu, pwy yw'r aelodau, ac fel y mae pethau yn cael eu trefnu yn y maes hwn - er fod newid go sylweddol wedi digwydd yn ddiweddar gan fod cyfreithwyr wedi mynd a'u hachos i'r Uchel Lys heb fod yn aelodau o'r Bar.

Wrth gwrs, fel y gellid disgwyl gan Gardi, cawsom beth o hiwmor y Cardi hefyd, a hawdd oedd gweld sut y gallai areithydd fel hwn ennill sylw a chefnogaeth cynulleidfa boed mewn cyfarfod gwleidyddol neu yn dadlau achos yn y llys. Roedd y gymeradwyaeth ar ddiwedd y sgwrs yn dangos yn eglur gymaint oedd y gynulleidfa hwn wedi mwynhau gwranddo ar y bargyfreithiwr enwog.

Yna daeth yn amser i ni ethol ein swyddogion am y tymor nesaf. Ond yn wir roedd y rhai presennol wedi gwneud eu gwaith mor rhagorol eleni nes i ni eu hail-ethol i gyd ond un a hynny nid am ein bod yn anffodol arni! Yn anffodus i ni, bydd Gwen Owen, Sain Ffagan, un o'n cyd-ysgrifenyddion yn ein gadael cyn bo hir ac felly etholwyd Bethan Kynric Lewis i gymryd ei lle. Wrth ddiolch o galon i Gwen am ei gwaith i'r Clwb Cinio dymunodd Myfanwy Jarman hir oes a rhwydd hynt iddi hi a'i gŵr, Trefor Owen, Curadur Angueddfa Werin Cymru, yn eu cartref newydd. Y swyddogion am y flwyddyn nesaf felly fydd Myfanwy Jarman, Llywydd; Meudwen Davies, Trysorydd; a Julia Lloyd (755296) a Bethan Kynric Lewis (754723) yn gyd-ysgrifenyddion.


Bydd y Clwb Cinio yn ail-ymgynnull ar yr ail nos Iau ym mis Medi ac yn cyfarfod bob yn ail mis drwy'r gaeaf. Nid oes raid ymaelodi nac ymrwymo i fod yn bresennol bob tro, dim ond dod pan y gallwch.

Clywais ryw si yn ddiweddar eu bod "nhw" yn dweud ein bod ni yn "cllicish" yn y Clwb Cinio. Mae'n anodd iawn credu hynny gan fod gwahanol rai yn dod bob tro a byddai'n amhosibl i ffurfio clics mewn cymdeithas mor gyfnewidiol. Os ydych chi wedi clywed hyn, da chi dowch yn i weld drosoch eich hunain, ac os ydych chi wedi dweud hyn, chwiliwch am esgus gwell am beidio dod atom. Gallaf eich sicrhau, os byddwch yno am y tro cyntaf, cewch groeso penfedigaidd gan Myfanwy a chwmmiaeth gynnes gan baw ohonom.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Cennin Roddick, 17 Llandennis Avenue a'i theulu yn eu profedigaeth yn ddiweddar o golli Tad a Thaid, a oedd mor annwyl ganddynt.





AR DRAWS:

1. Chwalodd bom y targed i gyd ond blaen ei gynffon - adwaith gormodol oedd hynny. (9)
6. Yn fy llencyndod mi welwn ateb i holl brobleme byd, ond i'r gwrthwyneb yn awr. (5)
9. Y maent yn ymneilltuo. (9)
10. Cewch ystyr y gair ymhlith rhyw gymysgedd o lythrenau. (5)
11. Llŵ diniwed yn bendifaddau. (2,1,3)
12. Llun 50c, bron. (7)
14. "Nid oes \_\_\_\_\_ nac ymadrodd lle ni chlybuwyd eu lleferydd hwynt". (Salm) (4)
15. Prif gynhellydd yr Hen Gorff? (6,4)
18. Dychwel adref i'r Sowth. (4,3,3)
19. Dagrau cyferchydd y Deryn Pur. (4)
21. Tanwydd hawdd ei gael. (3,4)
23. 14 yw maes ei lafur. (6)
25. Weithiau ni fydd hwn gennych. (5)
26. Rownd unwaith ar achlysur arbennig. (9)
27. Pwytho. (5)
28. Mae'n bosib cael diod a chwyn ynddo. (9)

I LAWR:

1. Deunydd hen gannwyll. (4)
2. Gadewch inni wneud cofnod ohono. (9)
3. Troi yn aur? Go brin. (6)
4. Mae angen gwaed newydd ar ambell i gorff, \_\_\_\_\_ dyma'r ateb. (10,5)
5. Mae yna le i gredu eu bod yn cael trafferth efo blerwch gwsg T\_\_\_\_, ger Corwen. (5,7,3)
6. Y pleser sy'n deillio o chwalo twyni man. (8)
7. Porthi. (5)
8. O fethu dal digon, di gel iselder ysbryd. (10)
13. Cyflwr y "gŵr gofidus, a chynefin a dolur." (Eseia) (10)

16. Ymdrech a chyfle Del i fod cystal 3'i arwr. (9)
17. Ai dyma'r broses sy'n gwneud dynion yn benstiff? (3)
20. Heb laesu dwylo. (6)
22. Rhod a lunir gan rai bobol wynion. (5)
24. A nifer yn dilyn i'r bwch. (4)

**CYSTADLEUAETH RHIF 61:**  
Mae canlyniad y croesair gan bennaeth James Bond, ac ef yn Sals. (1, 3, 5)  
Mae'n \_\_\_\_\_ gennym. (4, 4)

**CYSTADLEUAETH RHIF 62:**  
Tocyn llyfrau Cymraeg gwerth £5 fydd y wobr y mis hwn am newid. Enw a chyfeiriad ar ymyl y Croesair i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed erbyn Mehefin 12 os gwelwch yn dda.

**LLWYDDIANT:**  
Llongyfarchiadau i aelodau'r Adran Trwro sy'n cyfarfod yng Nghapel Salem. Iu'r plant wrthi ers tro yn paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd a cyn yr wythnos fawr hyd yn oed daeth y newyddion da eu bod nhw wedi ennill tystysgrif i nodi eu llwyddiant (cydradd trydydd) yn y gystadleuaeth sy'n gofyn am dâp o un o storïau Cyfres y Porth. Dewis y plant oedd "Lewis a'r Clown" a chyflwynwyd y stori gan Branwen Gwyn, Dean Hughes, Thomas Brown, Dafydd Dafydd, Rhiannon Dafydd a Llyr Evans.  
Bydd yr Adran hefyd yn cystadlu gyda'r côr a'r parti cyd-adrodd dan 12 mlwydd oed ac yn cyflwyno drama wedi'i seilio ar un o chwedlau Cymru a sgrifennwyd ar eu cyfer gan Gwyn Parry.  
Pob hwy! iddyn nhw yn Methesda ac i Adran Llandaf a Llanbedr y Fro gyda'u partion Dawns, Canu ac Adrodd i Gyfeiliant Telyn, Gobeithiwn y byddwn ni'n gallu nodi newyddion da unwaith eto yn y Dinesydd nesaf.



**ARIES:** Os am dderbyn dyrchafiad yn y gwaith y mis hwn mae'n bosib y bydd eich bywyd personol yn dioddef. Dyna'r pris fydd raid ei dalu. Chi'n unig all benderfynu pa elfen sy bwysicaf yn eich bywyd.

**TAURUS:** Mae hwn yn fis sicr iawn yn ariannol, ond gwylwch na fydd eraill yn ceisio cymryd mantais o'ch caredigrwydd. Efallai y byddwch yn teimlo'n unig ar brydiau, ond rhaid dioddef hynny os ydych am dorri cwys eich hunan.

**GEMINI:** Er gwaetha'ch penblwydd dydy hwn ddim yn fis llewyrchus iawn. Mae e'n gyfnod i ddsygu rhai o wersi bywyd ac i ddatblygu'r bersonoliaeth - trwy fod yn oddefgar ac amyneddgar.

**CANCER:** Mae eraill yn dueddol o ddisgwyl gormod oddi wrthych nawr - o hyn ymlaen tan ddiwedd y flwyddyn rhaid i chi brofi na all eraill ddbynnu arnoch chi mwyach - mae hi'n bryd cymryd gofal o'ch gofynion eich hun bellach.

**LEO:** Gwaith fydd yn rheoli'ch bywyd y mis hwn - efallai y bydd rhywrai yn eich siomi yn y gwaith - cael gwared ohonyn nhw o'ch bywyd fyddai orau. Efallai bydd gennych rai problemau ariannol y mis hwn.

**VIRGO:** Os bydd rhywun yn eich gadael i lawr y mis hwn gwnewch yn siwr o'ch ffeithiau cyn eu cyhuddo. Efallai bod ganddyn nhw resymau meddygol dros ymddwyn fel y gwnaethant. Ceisiwch ffrwyno eich eiddgedd.

**LIBRA:** Daw'r cyfan yn eglur y mis hwn - rydych yn sicr bellach i ba cyfeiriad y dylech fynd er gwaetha'r rhywstrau o'ch blaen. Gyda nerth a dyfbarhad dylech gyrraedd eich nod - nod sy'n werth bob aberth i'w gyrraedd.

**SCORPIO:** Defnyddiwch eich gwrhydri cynhenid i fynnu'r gwirionedd gan eraill mewn materion personol ac ariannol. Rhaid i chi gael gwybod yn syth os nad yw pethau'n mynd i weithio allan. Rydych ar drothwy croesffordd yn eich bywyd.

**SAGITTARIUS:** Dyma gyfnod cythryblus i chi ym materion y galon - rhaid i chi dynnu'n ddwfn ar eich doethineb a'ch profiad. Rhaid gwneud penderfyniadau mawr nawr - thâl hi ddim i'w gohirio, ond peidiwch da chi a bod yn fyrbwyll.

**CAPRICORN:** Byddwch yn llawn hunan hyder nawr ac yn benderfynol o aelu'n uchel iawn. Caiff bawb wybod eich bod yn meddwl busnes. Cymrwch bwyll os ydych newydd ddechrau perthynas newydd - nid aur yw popeth melyn!

**AQUARIUS:** Dydy popeth ddim yn mynd fel y dylai nawr, ond na phoener daw eto haul ar fryn. Rhaid dod i dermau a sefyllfa newydd a gadael i'r rhai sy'n agos atoch gael mwy o ryddid. Cymrwch ofal o'r ceiniogau.

**PISCES:** Gadewch i'r gorffennol fynd - thal hi ddim i lynnu'n ormodol wrtho - mae hi'n rhy hwyr bellach. Dylech wneud cyfeillion newydd eleni, a mae hi'n gyfnod da i newid swydd hefyd.



# NANSI PEATE

A MINNAU newydd ddarllen hysbyseb iad yr Wyl Dridiau i ddathlu Hen Gaian Mai yn Sain Ffagan yn y Dinesydd a phenderfynu os byddai'r tywydd yn braf a metron y cartref i'r henoed yn caniatáu y byddwn yn mynd â gweddwr'r Curadur cyntaf, y Doctor Iorwerth C.Peate, yno ar y Sul, 11 Mai i weld y miri, cefais aiwad ffôn i ddweud iddi farw'r bore hwnnw wedi ail stroc.

Buasai'r wreidda garedig ac hunan-berthol hon wedi mwynhau gweld Sain Ffagan yn ei gogoniant, yn profi yr hyn oedd ei gŵr yn gwbl argyhoeddedig ohono yn ei weledigaeth fawr, sef nad lle marw y dylai amgueddfa fod ond lle i bobl ddyysgu am eu traddodiadau a'u hetiffeddiaeth a sylweddoli eu parhad - yn ei eiriau ef - "teml yr awenau byw" oedd Sain Ffagan.

Prin flwyddyn a hanner wedi marwolaeth ei gŵr trawyd Nansi Peate yn wael gyda stroc a barlysoedd ei hochr dde a'i hamddifadu o'i lleferydd. Fis Mawrth 1984 y bu hynny, a bu'r dwy flynedd a'i dilynodd yn rai trist o rwystredig iddi, oherwydd er na fedrai siarad fawr ddim, yr oedd ei meddwl yn effro iawn a'i synnwyr digrifwch yn dal i fyrlwmu.

I'r rhai ohonom a oedd yn wir ffrindiau iddi daeth ffordd i'w deall ac i gyfathrebu a hi ar waethaf yr anawsterau; tristwch i mi yn bersonol oedd diffyg yr awdurdodau i ddod o hyd i therapydd-llferydd Cymraeg ei hialth yn nyddiau cynnar y salwch; credaf y byddai hynny wedi newid pethau'n sylweddol, oherwydd hyd yn oed gyda therapi Saesneg daeth i fedru ynganu ychydig o eiriau yn eglur, ac wrth i mi ac eraill barhai i siarad Cymraeg a hi llwyddodd hyd yn oed i ddweud rhai geiriau Cymraeg. Cofiaf yn dda y llawenydd a deimlais o'i chlywed yn dweud "Nos da cariad" am y tro cyntaf wedi'r stroc. Fy nhro i yw hi rwan i ddweud "Nos da cariad ... a diolch".

Nia Rhosier.

## LLONGYFARCH

### DWY BRIODAS:

Longyfarchiadau i Neil Johnson, mab Mr. a Mrs. Douglas Johnson, Miskin a Sarah Rhiannon Jones, merch Mr. a Mrs. Emrys Wynn Jones, Aberystwyth. Fe'u priodwyd ar Fai 3 yng Nghapel y Waun. Erbyn hyn mae nhw wedi ymgartrefu yn Llantrisant Street, Cathays, ac yn ail-gydio yn eu swyddi - Neil ym myd bancio a Sarah yn nyrsi yn yr Ysbyty Ddeintyddol.

Yn y wledd ar ôl y briodas cyflwynwyd dysgl (gwaith Mrs. Vouden, Penarth) iddyn nhw gan rieni Sarah ac arni torrwyd llinellau o eiddo ei hen-daid, T.Gwynn Gones:

Duw a Mair wen, dymor hir  
Ro i wr cu a gwaig gywir  
Hoedl wiw, ddi-ofid, lawen  
Na bythont hwy byth yn hen.

Dyna hefyd ein dymuniad ninnau.

Priodwyd Arthur Emyr, mab Marion Arthur a'r diweddar Emyr Jones, ac Ann Amelia Campos Toni o Sao Paulo, Brazil yng nghapel Bethel, Llangyfelach, Abertawe ar Fai 3. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Cynwil Williams, gyda darlleniad yn iaith y briodferch, Portiwgeneg, gan ei thad.

Bydd y ddau'n byw yn Abertawe lle mae Arthur yn gwiethio i'r BBC. Dymunwn yn dda iddyn nhw gan ychwanegu ein dymuniadau gorau i Arthur ar ei daith i bendraw byd gyda charfan rygbi Cymru. Gobeithio y cawn ni ei weld yn gwisgo'r crys coch ar y Maes Cenedlaethol y flwyddyn nesaf.

### PARTNERIAETH:

Da yw clywed i Peter Watkin Jones gael ei wneud yn bartner yn Phillips & Buck, y cwmni cyfreithwyr adnabyddus yn y Ddinas.

Astudiodd Pete y gyfraith yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth a Phrifysgol Aix a Marseilles yn Ffrainc. Rhwng canu gyda Mynediad am Ddim, Cor Cerdd Dant Caerdydd, pel droedio, chwarae golff a phicio drosodd i Ffrainc, mae'n fof eitha prysur!

### CAN I GYMRU:

Ym mharti blynyddol y Dinesydd ym mis Ionawr clywyd cân newydd sbon am y tro cyntaf. Y noson honno fe ganodd Mari Emlyn ei chyfansoddiad ei hun "Be ddyllwn i ddeud?" ac ym mis Chwefror fe'i dewiswyd yn "Can i Gymru" ar gyfer Gŵyl Cilarne. Yno ar 14 Mai, ac Eirlys Parry yn ei chanu, daeth yn ail i gyfraniad Llydaw mewn cystadleuaeth frwd, Llongyfarchiadau i Mari, Eirlys a'r cerddorion - a gobeithio y cawn glywed cân newydd eto gan yr un gyfansoddwraig ym mharti'r Dinesydd, 1987!

### GENI:

Llongyfarchiadau i Richard a Jillian Eilfn Jones ar enedigaeth merch, Gwenllian Eilfn, chwaraer fach i Huw Eilfn ac Angharad Eilfn.

Os am  
DIWNIWR PIANO

Cysyllter â  
Hefin Tomos,  
62 Heol Monthermer,  
Y Waun Ddyfal.  
Ffôn: Caerdydd 43367



## GAIR O'R POST

### Annwyl Gyfeillion

Yn ddiweddar fe lansiodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ddeiseb genedlaethol yn galw am Ddeddf Iaith Newydd. Dyma eiriad y ddeiseb: "Galwn am Ddeddf Iaith i sicrhau fod hawl gan bobl Cymru i ddefnyddio'r Gymraeg a derbyn gwybodaeth yn Gymraeg ymhob rhan o fywyd cyhoeddus Cymru".

Mae hon yn ymgyrch dra phwysig ac mae'n rhaid sicrhau o leiaf 100,000 o enwau arni. Ni ellir gwneud hyn heb gydweithrediad pob Cymro/Cymraes a phob gymudiad/cymdeithas/undeb y mae dyfodol y Gymraeg yn fater o bryder iddo/i/ynt.

Gofynnwn yn garedig felly am eich cymorth i ddsbarthu'r ddeiseb yma ac i ystyried mynd o ddrws i ddrws i gasglu enwau. Ymgyrch 6 mis fydd hwn a gobeithwn gael y deisebau yn ol erbyn diwedd mis Hydref i'w cyflwyno i'r Swyddfa Gymreig. Am ragor o wybodaeth a chopiau o'r ddeiseb cysylltwch â:

Swyddfa Cymdeithas yr Iaith Gymraeg  
5 Maes Albert  
Aberystwyth  
Dyfed  
0970 4501

Mae ymgyrch fel hon yn debyg o odro adnoddau'r Gymdeithas i'r eithaf. Gwerthfawrogrir unrhyw gyfraniad ariannol waeth pa mor fychan.

Gan ddiolch ymlaen llaw am eich cydweithrediad a'ch cymorth.

Yr eiddoch yn gywir  
Dafydd Morgan Lewis  
Arweinydd Grwp Statws

O.N. Mae Cymdeithas yr Iaith yn bwriadu trefnu cyfres o gyfarfodydd cyhoeddus ar hyd a lled Cymru yn ystod y chwe mis nesaf i sicrhau sylw i'r ymgyrch hon. Gwylwch eich Papur Bro am ragor o fanylion.

## WALE S4 CYMRU

Sarn Ffawr Cymru

Mae S4C yn chwilio am ddau berson ifanc a brwdfrydig all wynebu'r sielens o yrfa mewn gweinyddiaeth deledu o fewn awyrgylich o brysurddeb parhau.

### YMCHWILYDD

Swydd newydd ar Gytundeb o ddwy flynedd, i arbenigo ym maes ymchwil cynulleidfia, ac ymgymeriad ag ymchwil cyffredinol i faterion perthnasol i S4C.

Rhaid wrth radd arhydedd dda iawn, a'r gallu i ddadansoddi a deall ystadegau a ffigurau. Byddai gradd neu brofiad ymchwil yn fantais.

Cyfflog yn ôl cymwysterau a phrofiad —  
qddeutu £8,000 — £9,000 i ymgeisydd a raddiodd yn ddiweddar.

### SWYDDOG CYTUNDEBAU

Swydd o fewn yr Uned sy'n delio â holl agweddau busnes a chyllid y rhaglenni a gomisiynir gan y Cynhyrchwyr Annibynnol; i fod yn gyfrifol am gwblhau'r Cytundebau Rhaglenni, ac arbenigo ar delerau'r cytundebau undeb ar gyfer actorion, scriptwyr a chyfranwyr eraill.

Rhaid wrth allu i drafod, a byddai gradd yn y gyfraith yn fanteisiol iawn. Daw'r swydd hon yn wag oherwydd dyrchafiad. Cyfflog ar raddfeydd £8,385 — £10,171 neu £10,171 — £12,186, yn ôl cymwysterau a phrofiad.

### Ffufienni cais oddi wrth:

Mrs. Mair Owen  
S4C, Clos Sophia  
Caerdydd  
CF1 9XY  
Ffôn: (0222) 43421

Dyddiad cau: Mehefin 6, 1986

(Post of Researcher and Contracts Officer at S4C)

## Ymchwilydd - Rhaglenni Ysgafn

Mae angen Ymchwilydd ar HTV Cymru i weithio ar raglenni adloniant ysgafn, comediau sefyllfa, rhaglenni cerdd, a rhaglenni plant. Dylai'r ymgeisydd fod â phrofiad, neu o leiaf diddordeb byw yn y mathau yma o raglenni, ac yn barod i ymuno â thim bywiog a gweithgar yn sefydlog yng Nghaerdydd.

Cyfflog (o dan hyfforddiant): £6,850 y flwyddyn. (Wedi gorffen hyfforddiant, bydd y cyfflog rhwng £10,023 a £13,709 gan gynnwys atodiadau lleol).

Y swydd i gydymffurfio â'r cytundeb rhwng y cwmni ag undeb ACTT.

Dylai ymgeisydd, mab neu ferch, anfon am ffurflen gais gan amgáu amlen hunan-gyfeiriad gan nodi cyfeirnod DIN/485 at: Y Rheolwr Staffio, HTV Cyfyngedig, Y Ganolfan Deledu, Caerdydd CF5 6XJ.

Nid oes angen i'r rhai sydd wedi ymgeisio'n barod wneud cais pellach.

YR YDYM YN  
CYFLOGWYR  
CYFLE  
CYFARTAL

